Ministry of Justice

# Diwygio'r cynllun dileu ffioedd 'Help i Dalu Ffioedd' – diogelu a gwella mynediad at gyfiawnder

## Ymateb i'r ymgynghoriad

Cyhoeddir yr ymateb hwn ar 16 Hydref 2023

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Diwygio'r cynllun dileu ffioedd 'Help i Dalu Ffioedd' – diogelu a gwella mynediad at gyfiawnder

Ymateb i'r ymgynghoriad

**Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.**

**Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/**

# Cynnwys

**Am yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn** **3**
Cwynion neu Sylwadau 3
**Cyflwyniad** **4**
Cefndir 4
Crynodeb o'r ymatebion 5
Strwythur yr ymateb 7
**Pennod 1 – Y prawf incwm** **8**
Trothwyon incwm 8
Diystyriadau incwm 19
Budd-daliadau pasbortio 21
Diffiniad o incwm misol gros 22
**Pennod 2 – Dileu'r ffi yn rhannol** **26**
**Pennod 3 – Y prawf cyfalaf** **29**
Diffiniad o gyfalaf gwario 29
Y trothwy cyfalaf is 30
Y system band trothwy cyfalaf 31
Y cap oedran 32
Diystyriadau cyfalaf 33
**Pennod 4 – Y broses ymgeisio** **37**
Datganiad a Datganiad Gwirionedd 37
Cwblhau ceisiadau 38
**Pennod 5 – Gweithredu** **40**
Darpariaethau trosiannol 40
**Pennod 6 – Materion amrywiol sydd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn** **41**
**Casgliad a'r camau nesaf** **45**

**Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg** **46**

Asesiad Effaith 46

Cydraddoldeb 46

Yr Iaith Gymraeg 46

**Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr** **47**

**Atodiad B: Rhestr derfynol o'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Help i Dalu Ffioedd** **48**

# Am yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgynghoriad ar gyfer y papur ymgynghori: Diwygio'r cynllun dileu ffioedd 'Help i Dalu Ffioedd' – diogelu a gwella mynediad at gyfiawnder.

Bydd yn cynnwys y canlynol:

- Cefndir yr adroddiad.
- Crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad.
- Ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad.
- Y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael mwy o gopïau o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â'r **Tîm Polisi Ffioedd** yn y cyfeiriad isod:

Fees Policy Team
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

Ebost: mojfeespolicy@justice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol drwy anfon ebost at mojfeespolicy@justice.gov.uk.

## Cwynion neu Sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod. .

# Cyflwyniad

## Cefndir

1. Mae'r cynllun Help i Dalu Ffioedd (HwF), a gyflwynwyd ar 7 Hydref 2013, yn hollbwysig er mwyn cefnogi dyletswydd yr Arglwydd Ganghellor i ddiogelu hawl gyfansoddiadol mynediad at gyfiawnder. Mae'n gwneud hyn drwy roi cymorth ariannol i unigolion ar incwm isel, sydd heb lawer o gynilion, os o gwbl, tuag at gost ffioedd y llys neu'r tribiwnlys. Drwy wneud hyn, mae'r cynllun yn sicrhau nad yw pobl yn cael eu hatal rhag troi at ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd am help dim ond oherwydd eu bod yn methu â fforddio ffi resymol. Heb y cynllun, byddai llawer o unigolion agored i niwed bob blwyddyn yn cael anhawster i gael mynediad at gyfiawnder drwy ein system llysoedd a thribiwnlysoedd.

2. Ar wahân i hyn, os nad yw ceisydd yn gymwys i gael cymorth dan y cynllun HwF, ond ei fod yn teimlo y dylid dileu'r ffi oherwydd ei amgylchiadau, gall ofyn i staff y llys neu'r tribiwnlys ystyried defnyddio pwerau'r Arglwydd Ganghellor i ddileu ffioedd, sydd ar gael mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

3. Mae'n hollbwysig bod y cynllun HwF yn parhau i dargedu'n gywir a chefnogi'r unigolion sydd â'r angen mwyaf. O ganlyniad, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder adolygiad cynhwysfawr o'r cynllun HwF, dan arweiniad tri phrif amcan:
   a) **Sicrhau mynediad at gyfiawnder i unigolion ar incwm isel heb fawr ddim cynilion, os o gwbl.** Mae'n hanfodol bod y cynllun yn parhau i gefnogi unigolion na fyddent fel arall yn gallu cael mynediad i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau, rhaid i'r trothwyon a'r rheolau barhau i gael eu targedu'n dda fel nad yw'r unigolion sydd fwyaf mewn angen yn syrthio drwy'r bwlch ymhen amser.

   b) **Darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.** Gan fod cynllun HwF yn rhan o'r system gyfiawnder, y trethdalwr sy'n talu'r gost o roi esemptiad rhag talu ffioedd i unigolion. Rhaid i'r cynllun felly barhau i ddarparu gwerth am arian y trethdalwr. O ran cymhwysedd, mae hyn yn golygu y dylai unigolion sydd â digon o fodd ariannol i dalu eu ffi gael eu hidlo allan. Ar lefel weithredol, dylai'r cynllun weithredu mor effeithlon â phosibl i osgoi costau diangen.

   c) **Bod â chynllun syml i geiswyr ei ddeall ac i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLlTEF) ei weinyddu.** Dylai rheolau'r cynllun fod yn hawdd i geiswyr eu deall ac i'w cymhwyso iddynt hwy eu hunain i ganfod a ydynt yn gymwys i gael dileu ffioedd, ac i ba raddau. Dylai'r cynllun a'i reolau hefyd fod yn hawdd i GLlTEF eu gweinyddu.

4. O ganlyniad i'r adolygiad, fe wnaethom ddatblygu set o gynigion eang ar gyfer diwygio'r cynllun HwF a chynnig ein newidiadau arfaethedig mewn ymgynghoriad yn dwyn y teitl *Diwygio'r cynllun dileu ffioedd 'Help i Dalu Ffioedd' – diogelu a gwella mynediad at gyfiawnder,* a gyhoeddwyd ar 7 Mawrth 2023.[1] Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd ymatebion i gynigion i ddiwygio'r prawf incwm, diwygio'r polisi dileu ffioedd yn rhannol, diwygio'r prawf cyfalaf a'r broses ymgeisio. Yn gyffredinol, roedd ein pecyn o gynigion yn ceisio cyflawni'r nodau a ganlyn:
   a) Cynllun mwy hael sy'n rhoi mwy o help i unigolion heb lawer o fodd ariannol.
   b) Cynllun wedi'i dargedu'n well sy'n darparu cymorth ariannol i unigolion sydd ei angen fwyaf.
   c) Cynllun sy'n darparu'r gwerth gorau am arian trethdalwyr.

5. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 30 Mai 2023 a'r ddogfen hon yw ymateb llawn y Llywodraeth i'r papur ymgynghori. Bydd yn cynnwys y canlynol:
   - Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.
   - Ymateb manwl ar gyfer pob thema a chwestiwn penodol a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.
   - Y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

6. Mae'r Asesiad o'r Effaith a'r Datganiad ar Gydraddoldeb sy'n mynd gyda'r ymgynghoriad wedi'u diweddaru i ystyried ymatebion gan randdeiliaid a dadansoddiad pellach a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cyhoeddir y dogfennau sydd wedi'u diweddaru ochr yn ochr â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

7. Mae rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad i'w gweld yn **Atodiad A**.

8. Mae'r rhestr lawn o'r cynigion y byddwn yn eu rhoi ar waith yn dilyn yr ymgynghoriad i'w gweld yn **Atodiad B**.

## Crynodeb o'r ymatebion

9. Cafwyd 18 ymateb i'r papur ymgynghori. Roedd dros 60% o'r rhain gan rai sy'n gweithio yn y sector cyfreithiol neu'r sector cyhoeddus. Roedd yr ymatebwyr eraill yn cynnwys y prif gyrff cynrychioladol ar gyfer y proffesiwn cyfreithiol, ac aelodau o'r cyhoedd.

10. Gallai'r ymatebwyr ddewis pa gwestiynau i'w hateb ac ni wnaeth pob un o'r ymatebwyr ateb pob cwestiwn.

11. Rydym wedi dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi ystyried effaith ein cynigion polisi yng ngoleuni themâu cyffredin a godwyd gan rai o'r ymatebwyr. Fe

[1] https://www.gov.uk/government/consultations/revising-the-help-with-fees-remission-scheme

wnaethom hefyd ystyried effeithiau posibl newidiadau a awgrymwyd gan rai o'r ymatebwyr.

12. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn croesawu adolygiad y Llywodraeth o'r cynllun HwF, â'r rhan fwyaf yn ateb '*ydw rydw i'n cytuno'* i 23 allan o'r 28 cwestiwn (h.y. cytuno â thros 80% o gwestiynau'r ymgynghoriad). Roedd yr ymatebwyr yn arbennig o gefnogol i'r cynigion i ddiweddaru'r cynllun drwy gynyddu cymorth ariannol, er enghraifft codi'r trothwyon ar gyfer incwm a chyfalaf. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cefnogi mesurau a gynigiwyd i symleiddio'r cynllun a'i wneud yn fwy hygyrch, er enghraifft lleihau nifer y bandiau trothwy cyfalaf a chaniatáu i gynrychiolwyr cyfreithiol a chyfeillion cyfreitha gwblhau a llofnodi ceisiadau HwF ar ran y ceisydd.

13. Lle'r oedd ymatebwyr yn anghytuno â rhai cynigion polisi, rydym wedi ystyried eu barn, a rhoddir sylw manwl iddynt yn yr ymateb i'r ymgynghoriad. Yn gyffredinol, y prif bwyntiau yr oedd anghytundeb yn eu cylch oedd

- **Cwestiynau 1 i 8 yn yr ymgynghoriad – y trothwyon incwm arfaethedig:** Er bod yr ymatebwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r trothwyon mwy hael, a'u bod at ei gilydd yn cytuno â'n methodoleg arfaethedig, dywedodd rhai y dylid codi'r trothwyon yn uwch eto a'u haddasu i ystyried y cynnydd mewn chwyddiant a chostau byw. Rydym wedi adolygu ein cynigion yn dilyn yr ymatebion a gafwyd, yn ogystal â data'r Arolwg Costau Byw a Bwyd (LCF) ar gyfer 2021/22 a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar ôl dadansoddi'r data'n ofalus, rydym yn parhau'n hyderus bod y cynigion ar gyfer trothwyon incwm a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad ar sail data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2019/20 yn gytbwys ac yn gadarn. Gweler ymateb llawn y Llywodraeth i gwestiynau 1 i 8 isod.
- **Cwestiwn 9 yn yr ymgynghoriad – diwygiadau arfaethedig i'r rhestr diystyriadau incwm:** Er bod 60% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno â'n cynnig, roedd y rhai a atebodd 'nac ydw' yn anghytuno'n gryf â'r cynnig i dynnu budd-dal tai, elfen tai y credyd pensiwn ac elfen gofal plant y credyd treth o'r rhestr diystyriadau incwm. Yn fyr, roedd yr anghytundeb hwn ar y sail y dylai'r budd-daliadau hyn gael eu hystyried yn daliadau am gostau gwirioneddol uniongyrchol i aelwydydd sy'n debygol o fod ar incwm is – nid incwm. Yn dilyn adolygiad a dadansoddiad wedi'i dargedu, rydym yn cytuno â barn yr ymatebwyr ac yn cynnig eu cadw yn y rhestr o ddiystyriadau incwm. Gweler ymateb llawn y Llywodraeth i gwestiwn 9 isod.
- **Cwestiwn 23 yn yr ymgynghoriad – y terfyn amser arfaethedig o 24 mis ar gyfer taliadau iawndal presennol a ddiystyrir dan y cynllun HwF a'r taliadau ychwanegol arfaethedig:** Roedd yr ymatebion yn cytuno â'r cynnig i ymestyn y rhestr o daliadau a ddiystyrir o asesiad cyfalaf HwF ond yn anghytuno'n gryf â chyflwyno terfyn amser o 24 mis ar sail tegwch. Yn dilyn adolygiad a dadansoddiad wedi'i dargedu, rydym yn cytuno â barn yr ymatebwyr ac nid ydym

yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig o derfyn amser. Gweler ymateb llawn y Llywodraeth i gwestiwn 23 isod.

## Strwythur yr ymateb

14. Mae Pennod 1 yn ymdrin ag ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 1 i 13 yr ymgynghoriad mewn perthynas â chynigion y prawf incwm.

15. Mae Pennod 2 yn ymdrin ag ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 14 ac 15 yr ymgynghoriad mewn perthynas â chynigion i ddileu'r ffi yn rhannol.

16. Mae Pennod 3 yn ymdrin ag ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 16 i 23 yr ymgynghoriad mewn perthynas â chynigion y prawf cyfalaf.

17. Mae Pennod 4 yn ymdrin ag ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 24 a 25 yr ymgynghoriad mewn perthynas â chynigion ar gyfer diwygio'r broses ymgeisio.

18. Mae Pennod 5 yn ymdrin ag ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 26 yr ymgynghoriad mewn perthynas â chynigion y darpariaethau trosiannol.

19. Mae Pennod 6 yn ymdrin ag ymateb y Llywodraeth i sylwadau cyffredinol amrywiol nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â chwestiynau'r ymgynghoriad ac sydd y tu hwnt i gwmpas cynigion yr ymgynghoriad.

20. Sylwer bod ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 27 a 28 yn yr ymgynghoriad yn cael eu trafod yn y Datganiad ar Gydraddoldeb cysylltiedig sydd wedi'i ddiweddaru.

# Pennod 1 – Y prawf incwm

## Trothwyon incwm

21. Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau 1 i 13 yn yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â chynigion y trothwyon incwm, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth.

### Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'n methodoleg arfaethedig i bennu'r trothwyon incwm gan ddefnyddio data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol?

22. Cafwyd 11 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 6 o'r ymatebwyr (55%) yn cytuno â'r fethodoleg arfaethedig, roedd 3 o'r ymatebwyr (27%) yn anghytuno, a dywedodd 2 o'r ymatebwyr (18%) 'efallai'.

23. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu ein cynnig i ddiweddaru'r fethodoleg sylfaenol a chodi trothwyon incwm. Roeddent hefyd yn cytuno bod LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn sail gadarn ar gyfer ein methodoleg oherwydd bod ganddo safonau uchel o ran dibynadwyedd ac ansawdd. Er hyn, roedd rhai ymatebwyr yn bryderus bod y set a ddefnyddiwyd fel sampl yn 'fach' a chwestiynwyd a yw'r sampl yn adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn costau tai yn ôl math o ddaliadaeth, lleoliad a chyfansoddiad aelwyd.

### Ymateb y Llywodraeth

24. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, rydym yn ffyddiog bod LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn sylfaen gadarn er mwyn canfod faint o incwm y mae ar unigolyn ei angen ar gyfer gwariant cyffredin a rhesymol, a'i fod felly yn sail addas ar gyfer pennu trothwyon incwm HwF.

25. Er nad yw arolygon, oherwydd eu natur, bob amser yn rhoi darlun cyflawn, LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r arolwg gwariant mwyaf yn y DU. Ar ben hyn, os yw cynllun y sampl yn gadarn (fel y credwn sy'n wir am LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol), nid yw sampl bach o ran maint o reidrwydd yn golygu na ellir creu amcangyfrifon â lefel uchel o hyder. Mae LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i gynllunio er mwyn cofnodi gwariant gan aelwydydd a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â hyn. Mae hyn yn cynnwys gwahanol fathau o ddeiliadaethau gan fod LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnwys aelwydydd sy'n denantiaid ac yn berchnogion cartref. Mae'r trothwy incwm misol gros felly yn ystyried costau tai a

chredwn fod addasu'r trothwyon ymhellach, y tu hwnt i ystyried cyfansoddiad aelwydydd drwy Bremiwm Cwpl a Phremiwm Plentyn, yn amhriodol ac yn ddiangen. Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod mesurau diogelu ychwanegol ar gael o hyd i aelwydydd ar incwm isel, byddwn yn parhau i ddiystyru budd-dal tai ac elfen tai Credyd Cynhwysol o'r asesiad incwm HwF (gweler ymateb llawn y Llywodraeth i gwestiwn 9 yr ymgynghoriad).

26. Yn fyr, os y prif bryder yw canfod gwariant yn ôl grŵp incwm, fel sy'n digwydd at ddibenion diwygio'r cynllun HwF, LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r ffynhonnell orau. Byddwn felly'n bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan bennu'r trothwyon incwm gan ddefnyddio data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Er mwyn bod yn gyflawn, rydym yn nodi na wnaeth ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'n methodoleg arfaethedig neu a fynegodd bryder ddarparu ffynhonnell data neu fethodoleg amgen.

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno â'n methodoleg arfaethedig i ddefnyddio'r 5ed degradd incwm i bennu'r trothwyon incwm?

27. Cafwyd 9 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 5 o'r ymatebwyr (56%) yn cytuno â'r fethodoleg arfaethedig o ddefnyddio'r 5ed degradd i bennu'r trothwy incwm, roedd 2 o'r ymatebwyr (22%) yn anghytuno, a dywedodd 2 o'r ymatebwyr (22%) 'efallai'.

28. Nododd yr ymatebwyr ei bod yn ymddangos yn ddoeth i ddefnyddio'r 5ed degradd incwm a chysoni'r cynllun â'r dull a ddefnyddir ar gyfer yr Adolygiad Prawf Modd Cymorth Cyfreithiol. Roedd y ddau ymatebydd a oedd yn anghytuno yn dweud y dylai'r trothwyon fod yn uwch er mwyn cynnwys mwy o bobl, ac y dylid ystyried y rhai sydd ar oriau hyblyg ac sy'n ennill incwm o wahanol ffynonellau yng nghyfrifiadau'r trothwyon.

### Ymateb y Llywodraeth

29. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, mae'r 5ed degradd incwm yn cynrychioli'r rhai hynny y byddai incwm eu haelwyd yn eu gosod 40% i 50% o'r ffordd i fyny'r dosbarthiad incwm. Rydym yn dal i gredu y dylid targedu'r cynllun HwF tuag at ddarparu'r cymorth ariannol mwyaf i aelwydydd sydd o dan y lefel incwm ganolrifol. Mae'r dull gweithredu hwn hefyd yn sicrhau cysondeb â'r Adolygiad Prawf Modd Cymorth Cyfreithiol, a oedd yn defnyddio dull tebyg yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

30. O ran yr awgrym y dylid rhoi ystyriaeth benodol i bobl sy'n gweithio oriau hyblyg, nid ydym yn credu bod oriau gwaith hyblyg yn effeithio ar ein cynnig i ddefnyddio'r 5ed degradd incwm. Ymdrinnir â'r pwynt yn hytrach yn ein cynnig i ddarparu ar gyfer pobl ar incwm anwadal drwy roi'r opsiwn i geiswyr ddibynnu ar gyfartaledd tri mis o'u

hincwm ar gyfer asesiad incwm HwF (gweler cwestiwn 12 yn yr ymgynghoriad). Ar wahân i hyn, os oes gan unigolion incwm o fwy nag un ffynhonnell, credwn ei bod yn briodol y dylid asesu pob math o incwm er mwyn penderfynu a ydynt yn gymwys ar gyfer dileu ffioedd.

31. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan bennu'r trothwyon incwm gan ddefnyddio'r 5ed degradd incwm.

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r categorïau gwariant 'hanfodol' a 'heb fod yn hanfodol', fel y nodir yn Atodiad B o'r ymgynghoriad, at ddibenion cyfrifo'r trothwyon incwm?

32. Cafwyd 9 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 4 o'r ymatebwyr (45%) yn cytuno â'n hasesiad o'r categorïau gwariant 'hanfodol' a 'heb fod yn hanfodol' i gyfrifo'r trothwyon incwm, roedd 3 o'r ymatebwyr (33%) yn anghytuno, a dywedodd 2 o'r ymatebwyr (22%) 'efallai'.

33. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'n cynnig yn deall cyfrifoldeb y Llywodraeth i sicrhau cydbwysedd rhwng y ffordd y caiff arian trethdalwyr ei wario a diogelu mynediad at gyfiawnder, gan nodi y dylai ceiswyr fod â rhwymedigaeth ariannol i dalu eu ffi os gallant fforddio talu yn rhesymol. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno: (a) yn credu na ddylid eithrio trwyddedau, dirwyon a throsglwyddiadau o'r cyfrifiad o drothwy incwm; a (b) yn credu na ddylid eithrio neu leihau categorïau hamdden, gwyliau a diwylliant. Gofynnodd un o'r ymatebwyr a ddylid cyfrifo trothwy incwm gwahanol ar gyfer aelwydydd sydd ag aelodau anabl yn y teulu. Roedd hyn ar y sail ei fod yn credu bod y costau a wynebir gan deuluoedd sydd â pherthynas ag anabledd dysgu difrifol yn uwch na'r costau a wynebir gan deuluoedd nad oes ganddynt aelodau o'r teulu ag anabledd.

### Ymateb y Llywodraeth

34. Rydym yn croesawu'r ddealltwriaeth o ddyletswydd y Llywodraeth i gydbwyso'r angen i sicrhau bod arian trethdalwyr yn cael ei dargedu'n gymesur ac yn effeithlon â'r cyfrifoldeb i ddiogelu mynediad at gyfiawnder. Er ein bod yn cydnabod y pwynt a nodwyd uchod gan yr ymatebwyr ynglŷn â gwahanol gategorïau gwariant, mae gennym gyfrifoldeb clir i'r pwrs cyhoeddus ac ni allwn felly gynnwys pob math o wariant nad yw'n hanfodol wrth gyfrifo trothwyon incwm HwF.

35. O safbwynt trwyddedau, dirwyon a throsglwyddiadau, fel y nodir yn yr ymgynghoriad ac yn unol â Chymorth Cyfreithiol, credwn nad yw'r categorïau gwariant hyn yn cyfateb i wariant rhesymol ac angenrheidiol. Er hyn, credwn fod treth ffordd (fel rhan o'r categorïau hyn) yn wariant angenrheidiol, ac o ganlyniad mae wedi cael ei chynnwys fel lwfans.

36. Rydym yn nodi bod y trothwyon incwm yn cynnwys gwariant gwyliau, hamdden a diwylliant yn rhannol drwy ganiatáu ar gyfer rhywfaint o wariant yn y categorïau hyn. Er nad ydym yn credu bod y gwariant hwn yn ddiangen ym mywydau pobl, credwn ei bod yn rhesymol y dylid disgwyl i geiswyr HwF dorri'n ôl mewn meysydd fel y rhain cyn troi at arian cyhoeddus.

37. Rydym yn cydnabod y pryder y gallai aelwydydd sydd ag aelodau anabl yn y teulu fod â chostau uwch. Er mwyn cydnabod hyn, mae'r cynllun HwF yn cymhwyso nifer o ddiystyriadau incwm sy'n gysylltiedig ag anabledd (megis lwfans gweini, lwfans anabledd difrifol, Lwfans Byw i'r Anabl ac yn y blaen), sy'n sicrhau nad yw incwm o'r fath yn cael ei ystyried fel ffactor yn yr asesiad HwF. Gweler Atodiad B yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad am restr lawn o daliadau yr ydym yn bwriadu parhau i'w diystyru o'r prawf incwm. Yn ogystal, lle mae aelwydydd ag aelodau anabl yn y teulu yn cael un o'r budd-daliadau cymwys, byddant yn cael eu cyfeirio drwy'r prawf incwm a bydd eu ffioedd yn cael eu dileu yn llawn.

38. Gan fod y cynllun HwF eisoes yn ystyried aelwydydd sydd ag aelodau anabl yn y teulu yn y modd hwn, ac y bydd yn parhau i wneud hynny, nid ydym yn cynnig pennu trothwy ar wahân ar gyfer aelwydydd sydd ag aelodau anabl yn y teulu. Byddem yn nodi nad yw'n briodol barnu aelwydydd sydd ag aelodau anabl yn y teulu fel un categori, gan fod ystod eang o anableddau i'w cael a hynny ar draws sbectrwm eang. Mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar lefel gwariant aelwydydd, y credwn mai'r ffordd orau o deilwra ar ei gyfer yw drwy'r rhestr o ddiystyriadau incwm a (lle bo'n berthnasol) y system budd-daliadau pasbortio. Ar ben hyn, byddem yn nodi bod set ddata LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a ddefnyddir i gyfrifo'r trothwyon incwm yn cynnwys unigolion a fyddai'n cael eu hystyried yn anabl dan ddiffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn ogystal, fel y nodwyd ym mharagraff 2 uchod, lle nad yw unigolyn yn gymwys ar gyfer cymorth drwy'r cynllun, mae'n dal i allu gwneud cais i ddileu ffioedd dan bwerau eithriadol yr Arglwydd Ganghellor i ddileu ffioedd.

39. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan gymhwyso'r categorïau gwariant 'hanfodol' a 'heb fod yn hanfodol' a bennwyd yn Atodiad B yr ymgynghoriad at ddibenion cyfrifo'r trothwy incwm.

**Cwestiwn 4**: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddefnyddio graddfa cywerthedd wedi'i haddasu y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i sefydlu'r Premiwm Cwpl a Phremiwm Plentyn?

40. Cafwyd 10 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 5 o'r ymatebwyr (50%) yn cytuno â'n cynnig i ddefnyddio graddfa cywerthedd wedi'i haddasu yr OECD i sefydlu'r Premiwm Cwpl a Phremiwm Plentyn, roedd 2 o'r ymatebwyr (20%) yn anghytuno, dywedodd 2 o'r ymatebwyr (20%) 'efallai', a dywedodd 1 ymatebydd (10%) 'ddim yn gwybod'.

41. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno yn gofyn am eglurhad ynglŷn â'n cynnig, a rhoddir sylw i hynny yn ymateb y Llywodraeth isod. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'n cynnig yn credu nad oedd y Premiymau Plant yn ddigon hael, ac y dylid defnyddio gwerth a oedd yn cyfateb i 0.5 ar gyfer plant o bob oed. Dywedodd un o'r ymatebwyr fod anghenion gwariant plant yn llai nag oedolion at ei gilydd, ond nad yw hyn yn wir yn aml yn achos plant sydd ag anableddau, ac argymhellodd bremiwm ychwanegol yn ymwneud ag anabledd. Yn olaf, roedd ymatebydd yn credu nad yw aelwydydd sydd â chyfansoddiad gwahanol, er enghraifft unig rieni, yn cael eu hasesu'n glir gan y dull OECD.

**Ymateb y Llywodraeth**

42. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol ar gyfer y cynnig hwn. I egluro ambell gwestiwn a godwyd gan yr ymatebwyr:
- ***A fydd uchafswm o ran nifer y plant y gall ceisydd hawlio Premiwm Plentyn ar eu cyfer*:** Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ni fydd uchafswm o ran faint o blant y gall ceisydd hawlio Premiwm Plentyn ar eu cyfer.
- ***Sut y byddai'r Premiwm Plentyn yn ystyried plant sy'n cael eu cefnogi'n ariannol gan y ceisydd, ond nad ydynt yn byw gydag ef neu hi:*** Mae'r Premiwm Plentyn yn bodoli er mwyn ystyried gwariant ychwanegol sy'n ofynnol gan aelwydydd i gefnogi plant dibynnol. Mae gan geiswyr hawl i Bremiwm Plentyn ar gyfer pob plentyn dibynnol sydd ganddynt – boed yn blentyn sy'n byw gyda'r ceisydd neu'n blentyn y mae'r ceisydd neu bartner y ceisydd yn ei gefnogi'n ariannol drwy daliadau cynnal plant neu daliadau achlysurol – ac ni fydd hynny'n newid.

43. Nid ydym yn credu y dylai swm cywerth o 0.5 fod yn gymwys i blant o bob oed. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, credwn mai defnyddio gwerthoedd cywerthedd gwahanol ar gyfer plant o wahanol oedran (0.5 ar gyfer plant 14 oed neu hŷn a 0.3 ar gyfer plant dan 14 oed) yw'r dull gweithredu cywir gan mai dyma'r fethodoleg graddfa cywerthedd wedi'i haddasu safonol sydd wedi'i sefydlu gan yr OECD. Mae'r dull gweithredu hwn hefyd yn gyson â'n cyfrifoldeb i sicrhau bod arian trethdalwyr yn cael ei dargedu'n briodol ar sail yr angen mwyaf.

44. Rydym yn cydnabod y pryder ynglŷn â chostau cynyddol i deuluoedd sydd â phlant ag anableddau. Cyfeiriwn yr ymatebydd at baragraff 37 uchod lle'r ydym yn egluro ein rhesymau dros ddefnyddio diystyriadau incwm, yn hytrach na throthwy incwm ar wahân, fel y dull o ystyried gwahanol fathau o anabledd ac anghenion/costau cysylltiedig. Yn ychwanegol at hyn, er nad oes gan raddfa cywerthedd wedi'i haddasu yr OECD y modd i ystyried ffactorau eraill megis anabledd, mae set ddata LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol a ddefnyddir i gyfrifo'r trothwyon yn cynnwys unigolion a fyddai'n cael eu hystyried yn anabl dan ddiffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010.

45. O ran y sylw nad yw cyfansoddiad aelwydydd gwahanol, megis unig rieni â phlant, yn cael eu hasesu’n glir gan ddull yr OECD, rydym yn cadarnhau bod Premiwm Cwpl a Phremiwm Plentyn sy’n defnyddio graddfa cywerthedd wedi’i haddasu yr OECD yn cael eu cyfrifo’n fanwl i ystyried costau cynyddol aelwydydd â dau oedolyn a/neu blant dibynnol. O ganlyniad, mae’r fethodoleg yn asesu’n glir ac yn ystyried aelwydydd sydd â chyfansoddiad gwahanol.

46. Byddwn yn bwrw ymlaen â’r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan ddefnyddio graddfa cywerthedd wedi’i haddasu yr OECD i sefydlu’r Premiwm Cwpl a’r Premiwm Plentyn.

**Cwestiwn 5:** Ydych chi’n cytuno â’n cynnig i osod dwy lefel o Bremiwm Plentyn – premiwm is i blentyn rhwng 0 a 13 oed a phremiwm uwch i blentyn dros 14 oed?

47. Cafwyd 11 ymateb i’r cwestiwn hwn. Roedd 3 o’r ymatebwyr (27%) yn cytuno â’n cynnig i osod dwy lefel o Bremiwm Plentyn, 5 o’r ymatebwyr (45%) yn anghytuno, dywedodd 2 o’r ymatebwyr (18%) ‘efallai’, a dywedodd 1 ymatebydd (9%) ‘ddim yn gwybod’.[2]

48. Roedd rhai o’r ymatebwyr yn cytuno â chael Premiwm uwch ar gyfer plant 14 oed a throsodd oherwydd y costau uwch. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno, ac a roddodd sylwadau, yn gofyn am eglurhad o ble roedd y terfyn o 14 oed wedi dod a pha dystiolaeth fyddai’n gwneud y tro er mwyn cadarnhau oedran. Trafodir y rhain yn ymateb y Llywodraeth isod. Argymhellodd yr ymatebwyr ar wahân y dylai’r ddau gategori o blant elwa o’r Premiwm uwch, ar y sail y gall plant iau a babanod fod â chostau uwch. Awgrymodd un o’r ymatebwyr y dylid cael tri dosbarth oedran ar gyfer Premiwm Plentyn (plant dan 5, plant 5 i 11 oed, a phlant 12 i 18 oed).[3] Yn olaf, dywedodd ymatebydd ei fod yn cytuno mewn egwyddor â’n cynnig ond argymhellodd bremiwm anabledd er mwyn ystyried gwariant aelwydydd uwch ar gyfer plant ag anableddau.

### Ymateb y Llywodraeth

49. Yn gyntaf, i egluro ychydig o gwestiynau a godwyd gan ymatebwyr:
- *O ble y cafwyd y ‘torbwynt’ o 14 oed ar gyfer gwahanu’r categorïau oedran:* Cynhaliodd yr OECD ymchwil i weld sut yr oedd gwahanol wledydd yn y byd yn diffinio oedolyn. Er bod y rhan fwyaf o’r gwledydd yn ystyried y rhai sy’n 16 oed

---

[2] Nid yw cyfanswm yr is-grwpiau yn gwneud 100% gan fod y ffigurau wedi’u talgrynnu.

[3] Sylwer: awgrymodd yr ymatebydd gategorïau (a) plant dan 5 oed; (b) plant 5 i 11 oed; (c) plant 11 i 18 oed. Er hyn, er mwyn osgoi dryswch, rydym wedi rhagdybio bod yr ymatebydd wedi categoreiddio’r un grŵp oedran (plant 11 oed) i ddau grŵp oedran gwahanol mewn camgymeriad felly rydym wedi newid categori c i ‘12’ yn yr ymateb i’r ymgynghoriad hwn.

neu hŷn fel oedolion, mae rhai gwledydd yn ystyried y rhai sy'n 14 oed neu hŷn fel oedolion. Ar sail eu hymchwil, defnyddiodd yr OECD y torbwynt mwy hael o 14 oed i bennu categori'r plentyn hŷn – gan fod hyn yn caniatáu i blant 14 a 15 oed elwa o'r cywerthedd uwch o 0.5, yn hytrach na'r gwerth is o 0.3. I'r gwrthwyneb, byddai cymhwyso'r torbwynt yn 16 oed yn golygu na fyddai plant 14 a 15 oed yn cael y Premiwm Plentyn uwch.

- ***Pa dystiolaeth fyddai'n gwneud y tro er mwyn cadarnhau oedran plant:*** Bwriadwn gadw'r broses ymgeisio yn syml drwy ofyn i geiswyr ddatgan i ba un o'r ddau gategori oedran y mae eu plant yn perthyn, a faint. Rydym yn nodi bod nifer o'r ffurflenni cais presennol mewn Llysoedd yn defnyddio'r un dull gweithredu.[4] O ran cadarnhau oedran, cyfrifoldeb y ceisydd, ei gynrychiolydd cyfreithiol neu gyfaill cyfreitha yw cwblhau'r cais HwF yn gywir ac ardystio bod yr holl wybodaeth a roddwyd yn wir hyd y gwyddant hwy drwy lofnodi'r datganiad a'r datganiad gwirionedd. Fel y nodir yn glir yn y cais HwF, os bydd ceisydd yn rhoi gwybodaeth anwir, neu os nad yw'n darparu tystiolaeth o'r wybodaeth a roddwyd os gofynnir am hynny, gall ei gais gael ei wrthod, a bydd y ffi lawn yn daladwy.

50. Mewn ymateb i'r awgrym y dylai'r ddau gategori oedran elwa o'r Premiwm Plentyn uwch, rydym yn cyfeirio'r ymatebydd at ein sail resymegol dan baragraff 43 uchod. Gan fod plant hŷn 14 oed a throsodd yn tueddu i fod ag anghenion gwariant uwch na phlant 0 i 13 oed, credwn mai gosod dwy lefel ar gyfer Premiwm Plentyn yw'r dull gweithredu gorau.

51. Nid ydym yn credu y dylid rhannu categorïau oedran plant ymhellach yn dri chategori gwahanol (plant dan 5 oed, plant 5 i 11 oed, a phlant 12 i 18 oed). Yn gyntaf, ni wnaeth yr ymatebydd a gyflwynodd y cynnig hwn ddarparu sail dystiolaethol wrthrychol neu sail resymegol dros argymell ein bod yn gwyro oddi wrth y fethodoleg graddfa cywerthedd wedi'i haddasu a sefydlwyd gan yr OECD. Yn ail, mae'n bwysig sicrhau bod y cynllun HwF yn syml ac yn hawdd i'w ddeall i geiswyr ac i GLITEF. O ganlyniad, yn niffyg tystiolaeth a sail resymegol gadarn dros greu cynllun mwy cymhleth, nid ydym yn cael ein perswadio i ddiwygio'r cynnig.

52. O ran yr argymhelliad i weithredu premiwm anabledd, rydym yn cyfeirio'r ymatebydd at baragraffau 37 a 44 uchod, sy'n ymateb i'r un pwynt.

53. Yng ngoleuni'r uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan bennu dwy lefel o Bremiwm Plentyn (Premiwm uwch ar gyfer plant 14 oed a throsodd, a Phremiwm is ar gyfer plant 0 i 13 oed).

---

[4] Gweler ffurflenni cais llys gan gynnwys: EX105 (Cais i gost trawsgrifau gael ei thalu ag arian cyhoeddus); Ffurflenni'r Amddiffyniad N11R ac N11M; N9A (Ffurflen addefiad); N92 (Cais am Orchymyn Gweinyddu); ac N9C (Addefiad – swm amhenodol, hawliadau anariannol a dychwelyd nwyddau).

**Cwestiwn 6**: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddefnyddio data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2019/20 i bennu'r trothwyon incwm a'r Premiymau?

54. Cafwyd 11 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 7 o'r ymatebwyr (64%) yn cytuno â'n cynnig i ddefnyddio data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2019/20. Roedd 3 o'r ymatebwyr (27%) yn anghytuno, a dywedodd 1 ymatebydd (9%) 'efallai'.

55. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig ac yn derbyn y byddai'r trothwyon yn fwy hael na phe baem wedi defnyddio data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2020/21. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn dweud bod y trothwyon yn dal heb fod yn ddigon hael a'u bod wedi dyddio o ystyried y cyfraddau chwyddiant uchel. Dywedodd un o'r ymatebwyr y byddai'r trothwy arfaethedig yn dal yn is na'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

**Ymateb y Llywodraeth**

56. Rydym yn deall teimladau'r ymatebwyr y dylai'r cynllun HwF fod yn gywir ac yn gyfredol. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom ddibynnu ar set data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2019/20 oherwydd, ar adeg cyhoeddi'r ymgynghoriad, nid oedd y data diweddaraf a oedd ar gael (ar gyfer y flwyddyn 2020/21) yn gynrychioladol o wariant arferol aelwydydd o ganlyniad i effaith COVID-19. O ganlyniad, aseswyd bod y set ddata ar gyfer 2019/20, a oedd yn darparu ar gyfer trothwyon mwy hael, yn adlewyrchiad cywirach o arferion gwario arferol aelwydydd.

57. Ar 31 Mai 2023, yn dilyn diwedd cyfnod ymgynghori'r HwF, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddata LCF newydd ar gyfer blwyddyn 2021/22. Ers hynny rydym wedi dadansoddi'r set ddata hon er mwyn sicrhau bod ein trothwyon arfaethedig yn parhau'n gywir ac yn gyfredol. Yn dilyn adolygiad, rydym wedi darganfod, er bod cynnydd yng ngwariant aelwydydd o'i gymharu â 2020/21, bod gwariant wedi aros ar lefel is na chyn y pandemig yn 2019/20. O ganlyniad, fel y dengys y tabl isod, byddai diwygio'r cynllun HwF gan ddefnyddio data LCF diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2021/22 yn dal i ddarparu ar gyfer trothwyon is na'r rhai a gynigid gan ddefnyddio set ddata 2019/20.

**Trothwyon incwm misol gros**

| | Y trothwyon presennol | Trothwyon gan ddefnyddio LCF ONS ar gyfer 2019/20 | Trothwyon gan ddefnyddio LCF ONS ar gyfer 2021/22 |
|---|---|---|---|
| Trothwy ceisydd sengl | £1,170 | £1,420 | £1,380 |

| | Y trothwyon presennol | Trothwyon gan ddefnyddio LCF ONS ar gyfer 2019/20 | Trothwyon gan ddefnyddio LCF ONS ar gyfer 2021/22 |
|---|---|---|---|
| Premiwm cwpl | £175 | £710 | £690 |
| Premiwm plentyn (14+ oed) | £265 | £710 | £690 |
| Premiwm plentyn (0-13 oed) | £265 | £425 | £415 |

58. Rydym felly'n cynnig parhau i ddefnyddio data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2019/20 i bennu'r trothwyon incwm. Yn ogystal, yn unol â sylwadau'r ymatebwyr, credwn y dylai'r trothwyon HwF, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, sicrhau eu bod yn dal i ddiogelu mynediad at gyfiawnder ac yn parhau'n gynaliadwy yn y tymor byr, canolig a hir, ar yr un pryd â chyfeirio arian cyhoeddus prin at y rhai sydd heb lawer o fodd ariannol. O ganlyniad, bwriadwn adolygu data LCF newydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol o bryd i'w gilydd ac ystyried y trothwyon fel y mae setiau data newydd yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol.

59. Rydym hefyd yn cydnabod pryder ymatebwyr ynglŷn â'r pwysau ariannol parhaus a brofir gan lawer ar draws y wlad, yn enwedig cyfraddau chwyddiant uchel. Rydym yn credu'n gryf bod data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn fesur sefydledig, dibynadwy a chynaliadwy o wariant aelwydydd sy'n cael ei ddefnyddio gan adrannau eraill y llywodraeth, ac ni fyddai defnyddio mesur arall i gyfrifo'r trothwyon yn ddigon cadarn. Gweler ymateb llawn y Llywodraeth mewn perthynas â chwestiwn 8 yr ymgynghoriad sy'n seiliedig ar chwyddiant isod.

60. Nid ydym yn credu bod modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng trothwyon incwm HwF a'r cyflog byw cenedlaethol. Yn y lle cyntaf, yn wahanol i'r cyflog byw cenedlaethol, mae'r trothwyon incwm HwF yn ymwneud â gwariant cyffredin a rhesymol unigolyn, ac o ganlyniad, nid yw gwariant heb fod yn hanfodol, megis gamblo ac alcohol (ymhlith eraill) yn cael ei ystyried. Yn ail, tra bod y cyflog byw cenedlaethol yn ymwneud yn benodol ag unigolyn, mae'r trothwyon incwm HwF yn ymwneud ag aelwydydd. O ganlyniad, mae'r cynllun HwF yn darparu ar gyfer Premiwm Cwpl a Phremiwm Plentyn gan gydnabod y ffaith fod cyfansoddiad aelwyd yn cael effaith uniongyrchol ar gostau byw. Mewn gwirionedd, dan ein cynigion, bydd trothwy incwm ceisydd yn codi'n sylweddol gan fod lwfansau'n cael eu gwneud ar gyfer y Premiwm Cwpl a'r Premiwm Plentyn. Er enghraifft, bydd ceisydd sengl â dau o blant (un dan 13 ac un arall dros 14) yn elwa o drothwy incwm gros o £2,555 y mis, sy'n cyfateb i gyflog blynyddol o tua £30,500. Bydd cwpl sydd â phlentyn dros 14 yn elwa o drothwy incwm gros o £2,840 y mis, sy'n cyfateb i gyflog blynyddol o tua £34,080. Yn olaf, mae'r cynllun HwF yn gwneud rhagor o lwfansau drwy restr

gynhwysfawr o ddiystyriadau incwm fel nad yw incwm sy'n dod o fewn y rhestr (er enghraifft rhai taliadau budd-daliadau) yn ffurfio rhan o'r trothwy incwm.

61. Gan ystyried yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan ddefnyddio data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2019/20 i bennu'r trothwyon incwm.

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i adolygu'r trothwyon incwm (fel y nodir yn y tabl o dan baragraff 70 yn y ddogfen ymgynghori) pan fydd data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2021/22 yn cael ei gyhoeddi yn 2023?

62. Cafwyd 10 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 7 o'r ymatebwyr (70%) yn cytuno â'n cynnig ac roedd 3 o'r ymatebwyr (30%) yn anghytuno.

63. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn dweud y dylai set ddata 2021/22 fod wedi bod ar gael o gwmpas yr adeg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad, a theimlent y dylid adolygu'r trothwyon o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn unol â realiti'r sefyllfa ariannol bresennol.

**Ymateb y Llywodraeth**

64. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig hwn. O ran y sylw y dylai data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2021/22 fod wedi bod ar gael o gwmpas yr adeg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad, rydym yn cyfeirio at baragraff 57 uchod lle'r ydym yn cadarnhau mai ar 31 Mai eleni y rhyddhawyd y set ddata hon – bron i dri mis ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad ac ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Byddem wedi gallu gohirio'r ymgynghoriad nes byddai'r data diweddarach ar gael, ond penderfynwyd peidio â gwneud hynny gan ein bod yn credu ei bod yn bwysicach rhoi blaenoriaeth i lansio'r ymgynghoriad er mwyn sefydlu cynllun HwF diwygiedig, mwy hael, cyn gynted ag y bo modd. Roedd hyn yn arbennig o wir gan ein bod wedi datblygu ein methodoleg trothwy incwm yn llawn a'n bod yn barod i ymgynghori, a'r cyfan y byddai data LCF diweddarach y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ei wneud fyddai newid y trothwyon, ac nid y fethodoleg. Yn ogystal, drwy fonitro'r sefyllfa'n ofalus a chadw mewn cysylltiad â chydweithwyr yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roeddem yn deall nad oedd sicrwydd ynglŷn â'r union ddyddiad ar gyfer rhyddhau ffigurau LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2021/22.

65. O ran adolygu data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol, fel y nodwyd ym mharagraff 58 uchod, credwn y dylai'r trothwyon HwF, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, sicrhau eu bod yn dal i ddiogelu mynediad at gyfiawnder ac yn parhau'n gynaliadwy yn y tymor byr, canolig a hir, ar yr un pryd â chyfeirio arian cyhoeddus prin at y rhai hynny

sydd heb lawer o fodd ariannol. O ganlyniad, bwriadwn adolygu data LCF newydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol o bryd i'w gilydd ac ystyried y trothwyon fel y bydd setiau data newydd yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol.

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i wrthod addasu'r trothwyon incwm yn ôl chwyddiant fel yr eglurir yn yr ymgynghoriad?

66. Cafwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 3 o'r ymatebwyr (23%) yn cytuno â'n cynnig, 8 o'r ymatebwyr (62%) yn anghytuno, dywedodd 1 ymatebydd (8%) 'efallai', a dywedodd 1 ymatebydd (8%) 'ddim yn gwybod'.[5]

67. O'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'n cynnig, roeddent yn gwerthfawrogi ein hymrwymiad i adolygu'r trothwyon incwm ar sail data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2021/22. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'n cynnig yn awyddus i weld y trothwyon hyn yn cael eu haddasu yn unol â'r cynnydd mewn chwyddiant yn ddiweddar a phwysau costau byw, ac yn credu y dylid adolygu'r trothwyon o bryd i'w gilydd. Gofynnodd un ymatebydd hefyd am eglurhad ynglŷn â pham yr oedd ffioedd wedi'u codi yn unol â chwyddiant yn 2021 ond nad yw chwyddiant yn cael ei adlewyrchu yn y trothwyon incwm arfaethedig. Gofynnodd ymatebydd arall a fydd unrhyw adolygiad o gymorth cyfreithiol yn arwain at adolygiad pellach o'r cynllun HwF ymhen blynyddoedd.

### Ymateb y Llywodraeth

68. Rydym yn parhau'n argyhoeddedig mai dibynnu ar ddata LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2019/20 i gyfrifo'r trothwyon incwm heb addasu ar gyfer chwyddiant yw'r dull gweithredu mwyaf priodol o hyd. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, heb ddigon o dystiolaeth ynglŷn ag effaith y cynnydd diweddar mewn chwyddiant ar wariant aelwydydd, byddai codi'r trothwyon incwm i ystyried chwyddiant yn anghyson â'n methodoleg arfaethedig, sy'n seiliedig ar wir wariant aelwydydd yn y DU.

69. Er ein bod yn cydnabod pryderon yr ymatebwyr ynglŷn â chwyddiant, ni fyddai'n briodol i ddilyn y dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn 2021 pan gafodd cynnydd oherwydd chwyddiant ei gymhwyso i drothwyon HwF yn ogystal â chynnydd i ffioedd llys yn ôl chwyddiant. I egluro hyn, codir ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd i dalu cost y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, a chafodd cynnydd 2021 i ffioedd yn ôl chwyddiant ei gymhwyso i adlewyrchu'r cynnydd yng nghostau GLITEF wrth ddarparu'r gwasanaethau perthynol. Yr un pryd, cymhwyswyd cynnydd chwyddiant hefyd i'r trothwyon incwm HwF. Er bod hynny'n newid angenrheidiol ar y pryd, mae'n hollol wahanol i'r cynlluniau a gynigir gennym ar hyn o bryd i ddiwygio'r cynllun HwF

[5] Nid yw'r is-grwpiau'n gwneud cyfanswm o 100% gan fod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

yn ei gyfanrwydd. Mae'n hollbwysig felly bod ein methodoleg yn gadarn ac y bydd yn sefyll prawf amser dros y blynyddoedd – yn hytrach na mabwysiadu dull adweithiol i fynd i'r afael â chwyddiant uchel na fydd yn gynaliadwy yn y tymor hwy o bosibl. Yn ychwanegol at hyn, yn dilyn gwaith dadansoddi wedi'i dargedu, gallwn gadarnhau y byddai cymhwyso cynnydd yn ôl chwyddiant i'r trothwyon incwm HwF (yn hytrach na bwrw ymlaen â'r diwygio trosfwaol yr ydym yn ei gynnig) yn darparu cynllun llai hael. Mae'r gymhariaeth i'w gweld yn glir yn y tabl isod:

**Trothwyon incwm misol gros**

| | Y trothwyon presennol | Trothwyon gan ddefnyddio LCF ONS ar gyfer 2019/20 | Y trothwyon presennol wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant[6] |
|---|---|---|---|
| Trothwy ceisydd sengl | £1,170 | £1,420 | £1,365 |
| Premiwm cwpl | £175 | £710 | £205 |
| Premiwm plentyn (14+ oed) | £265 | £710 | £310 |
| Premiwm plentyn (0-13 oed) | £265 | £425 | £310 |

70. Yn ogystal, o ran adolygu data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gweler paragraff 58 uchod sy'n rhoi sylw i'r pwynt hwn.

71. Yn olaf, mewn cysylltiad â'r cwestiwn a fydd adolygiad o Gymorth Cyfreithiol yn arwain at adolygiad o HwF ymhen blynyddoedd, nid ydym yn credu bod cysylltiad annatod rhwng y cynlluniau. Maent yn ddwy broses ar wahân, ac nid yw un yn ddibynnol ar y llall, felly ni fyddai adolygiad o'r naill gynllun yn arwain at adolygiad o'r llall.

72. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, heb addasu'r trothwyon incwm yn ôl chwyddiant.

## Diystyriadau incwm

73. Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 9 yn yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â diystyriadau incwm, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth.

6 Cymhwyso cyfradd chwyddiant mynegai tai prisiau defnyddwyr (CPIH) o fis Mawrth 2021 i fis Mawrth 2023

### Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 9:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiweddaru'r rhestr o ddiystyriadau incwm fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys yn Atodiad C?

74. Cafwyd 10 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 6 o'r ymatebwyr (60%) yn cytuno â'n diweddariadau arfaethedig i'r rhestr o ddiystyriadau incwm ac roedd 4 o'r ymatebwyr (40%) yn anghytuno.

75. Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r bwriad i gysoni'r cynllun HwF â Chymorth Cyfreithiol, roedd yr ymatebwyr a ddywedodd 'nac ydw' yn anghytuno'n gryf â'r bwriad i dynnu'r canlynol o'r rhestr o ddiystyriadau: (a) budd-dal tai; (b) elfen tai y credyd pensiwn; a (c) elfen gofal plant y credyd treth. Roedd yr ymatebwyr yn dweud nad yw'r taliadau hyn yn 'incwm' fel y cyfryw, a'u bod yn hytrach yn daliadau ar gyfer costau uniongyrchol a gwir gostau a ddarperir i unigolion y byddent yn debygol o fod yn y degraddau incwm is. Roedd pryder penodol y gallai'r cynnig i beidio â diystyru budd-dal tai gael effaith anghymesur ar oroeswyr cam-drin domestig sy'n derbyn lwfans budd-dal tai uwch sydd wedi mynd i loches lle mae'r costau'n uwch. Roedd pryder hefyd y gallai'r cynnig i beidio â diystyru elfen gofal plant y credyd treth gael effaith anghymesur ar rieni plant sydd ag anabledd dysgu difrifol sydd fel arfer â chostau gofal plant uwch.

76. Yn ogystal, argymhellodd un ymatebydd y dylid ehangu'r diffiniad o fudd-dal tai i gynnwys taliadau disgresiwn *ad-hoc* a all gael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol ac elusennau.

### Ymateb y Llywodraeth

77. Ac eithrio'r anghytundeb ynglŷn â'r tri budd-dal a nodwyd uchod, rydym yn croesawu'r cytundeb cyffredinol â'n cynnig i ddiweddaru'r rhestr o ddiystyriadau incwm.

78. O ran budd-dal tai, elfen tai y credyd pensiwn ac elfen gofal plant y credyd treth gwaith, roeddem wedi cynnig tynnu'r taliadau hyn o'r rhestr o ddiystyriadau incwm o'r blaen ar y sail eu bod yn ymwneud â chostau byw cyffredinol y darperir ar eu cyfer gan fethodoleg LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Fodd bynnag, ar ôl gwneud dadansoddiad wedi'i dargedu yn dilyn yr ymatebion a gafwyd, credwn y dylai'r budd-daliadau hyn barhau fel diystyriadau incwm. Rydym wedi gwneud y penderfyniad hwn ar y sail a ganlyn.

79. Mae costau tai ceiswyr, y gost fwyaf yn aml i unigolion sydd ar incwm isel, yn dibynnu ar gyfansoddiad aelwydydd ac ar yr ardal. Yn yr un modd, gall costau gofal plant hefyd amrywio gan ddibynnu ar y math o ddarpariaeth a'r lleoliad daearyddol. Er bod

data LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol (a thrwy hynny y trothwy incwm) yn ystyried costau tai a gofal plant gan ddefnyddio'r 5ed degradd incwm, rydym yn cytuno bod lwfans pellach drwy ddiystyriadau incwm yn briodol er mwyn sicrhau nad oes effaith anghymesur ar aelwydydd incwm is pan fydd taliadau budd-daliadau yn chwyddo eu hincwm misol gros yn artiffisial. O ganlyniad, byddwn yn diwygio ein cynnig er mwyn parhau â'r dull gweithredu presennol o ddiystyru budd-dal tai, elfen tai y credyd pensiwn ac elfen gofal plant y treth credyd gwaith o gyfrifiadau incwm y ceisydd.

80. Yn ogystal, nid ydym yn cynnig ehangu'r diffiniad o 'fudd-dal tai'. Yn gyffredinol, mae costau tai eisoes yn ffactor yn nata LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac o ganlyniad maent yn ffactor yn y trothwyon. Fel y nodwyd uchod, rydym hefyd yn cynnig parhau i ganiatáu i fudd-dal tai ac elfen tai y credyd pensiwn gael eu diystyru o gyfrifiadau incwm. Nid ydym yn credu bod newid y diffiniad o fudd-dal tai yn angenrheidiol nac yn briodol gan fod 'budd-dal tai' yn ymwneud â thaliad penodol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Ni fyddai gwyro oddi wrth restr glir a phenodol o ddiystyriadau incwm o fudd i geiswyr nac i GLITEF, a byddai'n groes i'n nod o sicrhau cynllun HwF syml a hawdd ei ddeall.

81. Ar sail yr uchod, byddwn yn dal i ddiystyru budd-dal tai, elfen tai y credyd pensiwn ac elfen gofal plant y credyd treth, ond fel arall byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno ac yn diweddaru'r rhestr o ddiystyriadau incwm.

## Budd-daliadau pasbortio

82. Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 10 yn yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â budd-daliadau pasbortio, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth.

### Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 10:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gynnal y rhestr gyfredol o fudd-daliadau prawf modd ar gyfer pasbortio ymgeiswyr drwy'r prawf incwm?

83. Cafwyd 10 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 7 o'r ymatebwyr (70%) yn cytuno â'n cynnig ac roedd 3 o'r ymatebwyr (30%) yn anghytuno. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig i gynnal y rhestr gyfredol o fudd-daliadau pasbortio, gan gydnabod y byddai asesiad llawn ar gyfer y garfan hon yn debygol o fod yn feichus ac yn araf. Argymhellodd ymatebydd a oedd yn anghytuno â'n cynnig y dylai ceiswyr sy'n gymwys ar gyfer budd-dal tai neu elfen tai y Credyd Cynhwysol hefyd gael eu pasbortio drwy'r prawf incwm.

**Ymateb y Llywodraeth**

84. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gref i'r cynnig hwn, a fydd yn parhau i symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer unigolion ac yn symleiddio'r broses ar gyfer GLlTEF.

85. Fel yr eglurwyd yn yr ymgynghoriad, nod pasbortio ceiswyr yw symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer unigolion sydd wedi cael asesiad modd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac sydd felly'n debygol iawn (oherwydd eu hincwm isel) o fod yn gymwys i gael dileu'r ffi pe baent yn cael asesiad llawn. Er bod y sail resymegol hon yn gymwys ar gyfer y pum math o fudd-daliadau prawf modd sy'n pasbortio ceiswyr drwy'r prawf incwm ar hyn o bryd, nid yw'n ymestyn i unigolion sy'n cael budd-dal tai neu elfen tai Credyd Cynhwysol. Mae lefel y cymorth y bydd unigolyn yn ei gael drwy fudd-dal tai neu elfen tai Credyd Cynhwysol yn amrywio gan ddibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys incwm aelwyd yr unigolyn. O ganlyniad ni ellir dweud, oni bai am y system basbortio, y byddai gan y grŵp hwn hawl ym mhob sefyllfa i gael ei ffioedd wedi'u dileu yn llawn ar sail asesiad incwm llawn. Oherwydd hynny, nid ydym yn credu y gellir cyfiawnhau ymestyn y rhestr o fudd-daliadau pasbortio i gynnwys budd-dal tai neu elfen tai Credyd Cynhwysol.

86. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan gynnal y rhestr bresennol o fudd-daliadau prawf modd ar gyfer pasbortio ceiswyr drwy'r prawf incwm.

## Diffiniad o incwm misol gros

87. Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau 11 i 13 yn yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â chynigion i ddiwygio'r diffiniad o incwm misol gros, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth.

**Crynodeb o'r ymatebion**

**Cwestiwn 11:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r diffiniad o incwm misol gros yn unol â pharagraff 94 yn yr ymgynghoriad?

88. Cafwyd 9 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 6 o'r ymatebion (67%) yn cytuno â'n diwygiad arfaethedig, roedd 2 ymatebydd (22%) yn anghytuno, a dywedodd 1 ymatebydd (11%) 'efallai'. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno ei bod yn ddoeth diwygio'r diffiniad yn unol â Chymorth Cyfreithiol er mwyn cael dull cyffredin o gyfrifo incwm. Er hyn, dywedodd un ymatebydd y byddai'r diffiniad o incwm yn cynnwys ad-daliadau benthyciadau neu ad-daliad am nwyddau/gwasanaethau, ac argymhellodd y dylid asesu incwm yn rheolaidd ar sail cyfartaledd tri mis er mwyn ystyried budd-daliadau sy'n cael eu talu'n hwyr neu'n cael eu hôl-ddyddio.

**Ymateb y Llywodraeth**

89. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig hwn, a fydd yn egluro beth sy'n cael ei ystyried fel 'incwm'.

90. Rydym yn cadarnhau y byddai'r diffiniad arfaethedig o incwm yn cynnwys taliadau a gafwyd fel ad-daliadau benthyciadau neu ad-daliadau am nwyddau/gwasanaethau. Nid ydym yn gweld bod rheswm dros beidio â chynnwys taliadau o'r fath yn asesiad incwm ceisydd. O ran argymhelliad yr ymatebydd y dylid asesu incwm ceiswyr HwF yn rheolaidd ar sail cyfartaledd o dri mis, rydym eisoes yn cynnig caniatáu i geiswyr ddefnyddio cyfartaledd tri mis o'u hincwm. Fodd bynnag, fel yr eglurir yn yr ymgynghoriad, cynigiasom adael hyn fel mater o ddewis i geiswyr er mwyn iddynt allu penderfynu beth yw'r llwybr gorau iddynt hwy gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau ariannol. Gweler ymateb llawn y Llywodraeth i gwestiwn 12 ar y mater hwn.

91. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan ddiwygio'r diffiniad o incwm misol gros i fod yn gyson â chymorth cyfreithiol sifil.

**Cwestiwn 12:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i roi dewis i ymgeiswyr rhwng defnyddio incwm misol neu incwm cyfartalog o dri mis ar gyfer y prawf incwm?

92. Cafwyd 9 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 4 ymatebydd (45%) yn cytuno â'n cynnig, 2 ymatebydd (22%) yn anghytuno, a dywedodd 3 ymatebydd (33%) 'efallai'.

93. Dywedodd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'n cynnig ei bod yn ddoeth i'r cynllun HwF gydnabod gwahanol fathau o gyflogaeth ac roeddent yn cytuno y byddai'n fwy teg i unigolion hunangyflogedig y gall eu hincwm amrywio'n fawr. Mynegodd un o'r rhai a oedd yn anghytuno bryder y gallai'r rheol incwm un mis alluogi ceiswyr i guddio eu gwir enillion drwy ddewis mis incwm anarferol o isel. Roedd eraill yn argymell y dylid asesu incwm yn rheolaidd ar sail cyfartaledd tri mis ac y byddai cyfnod hwy (chwech i ddeuddeng mis) yn fwy dymunol.

**Ymateb y Llywodraeth**

94. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig hwn, a fydd yn rhoi hyblygrwydd i helpu ceiswyr sy'n hunangyflogedig neu'n gwneud gwaith shifftiau sydd â'u hincwm yn amrywio o fis i fis.

95. Nid ydym yn rhannu'r pryder y gallai'r rheol incwm un mis alluogi ceiswyr i guddio eu gwir enillion drwy ddewis mis incwm anarferol o isel. I fod yn gymwys ar gyfer dileu ffioedd, rhaid i unigolyn ddibynnu ar ei incwm gros ar gyfer y mis yn union cyn dyddiad y cais HwF. Os bydd enillion unigolyn mewn mis yn ddigon isel i fod o dan yr incwm trothwy perthnasol, y swm hwn mewn gwirionedd yw ei wir enillion. Ar yr amod

ei fod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra (gan gynnwys y prawf cyfalaf), dylai'r unigolyn allu cael mynediad i'r cynllun HwF. Rydym yn nodi nad yw'r ymatebydd a fynegodd y pryder hwn wedi darparu tystiolaeth ategol nac eglurhad pellach.

96. Nid ydym yn credu y byddai darparu'r opsiwn o incwm chwe neu ddeuddeng mis yn fwy dymunol na'n cynnig. Mae cyfnod o dri mis yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng rhoi hyblygrwydd i geiswyr sy'n hunangyflogedig, yn gwneud gwaith tymhorol neu waith shifftiau a chynnal cynllun syml er budd ceiswyr a GLITEF. Byddai caniatáu cyfnod hwy o incwm, er enghraifft chwe neu ddeuddeng mis, mwy na thebyg: (a) yn ofyniad beichus i geiswyr, o ran cyfrifo eu hincwm a chyflwyno tystiolaeth pe bai angen; (b) yn llai hael, oherwydd gallai cyfartaledd yn seiliedig ar incwm hanner blwyddyn neu flwyddyn lawn ddarparu ffigur incwm misol uwch nad yw'n adlewyrchu sefyllfa bresennol y ceisydd; ac (c) yn weithdrefn fwy cymhleth i GLITEF brosesu a gwirio tystiolaeth, a allai arwain at oedi i geiswyr.

97. Nid ydym yn credu ychwaith y dylid asesu incwm ceiswyr yn rheolaidd ar sail cyfartaledd tri mis. Rydym yn dal i gredu mai cyflwyno'r opsiwn i geiswyr fel mater o ddewis (rhwng incwm un mis neu gyfartaledd tri mis) yw'r dull gorau. Efallai y byddai asesiad incwm rheolaidd gan ddefnyddio cyfartaledd tri mis o fudd i weithwyr hunangyflogedig, gweithwyr tymhorol neu weithwyr shifftiau, ond byddai'n rhoi baich diangen ar unigolion sy'n cael eu cyflogi ar incwm misol rheolaidd. Mae ein cynnig felly'n trin y ddau gategori o weithwyr yn gyfartal, heb ffafrio'r naill grŵp na'r llall.

98. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan roi dewis i geiswyr rhwng defnyddio incwm misol neu incwm cyfartalog tri mis ar gyfer y prawf incwm.

**Cwestiwn 13:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r diffiniad incwm misol gros i beidio â chynnwys tyniadau fel incwm mwyach?

99. Cafwyd 9 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 7 o'r ymatebwyr (78%) yn cytuno â'n diwygiad arfaethedig, roedd 1 ymatebydd (11%) yn anghytuno, a dywedodd 1 ymatebydd (11%) 'efallai'.

100. Roedd yr ymatebydd a ddywedodd 'efallai' yn cwestiynu'r cyfiawnhad dros anwybyddu tyniadau os yw unigolyn yn hunangyflogedig. Ni chafwyd sylwadau eraill mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

### Ymateb y Llywodraeth

101. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig hwn. I ateb yr ymholiad a amlinellwyd uchod gan yr ymatebydd, mae tyniadau yn elw y mae unig fasnachwr yn eu tynnu o'i fusnes, a byddai 'elw' yn dod yn awtomatig dan ein diwygiad arfaethedig i'r diffiniad o

incwm yn unol â chwestiwn 11 yn yr ymgynghoriad. O ganlyniad, byddai dal i ystyried tyniadau fel incwm ar sail ar wahân yn arwain at risg o gyfri incwm ceisydd ddwywaith.

102. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan ddiwygio'r diffiniad o incwm misol gros i beidio â chynnwys tyniadau fel incwm mwyach

# Pennod 2 – Dileu'r ffi yn rhannol

103. Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau 14 ac 15 yn yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â chynigion i ddileu'r ffi yn rhannol, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth.

## Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 14:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddisodli'r rheol gostyngiad rhannol sefydlog o 50% gyda'r cynllun tapro tri band?

104. Cafwyd 11 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 7 o'r ymatebwyr (64%) yn cytuno â'n cynllun tapro tri band arfaethedig, roedd 3 ymatebydd (27%) yn anghytuno, a dywedodd 1 ymatebydd (9%) 'ddim yn gwybod'.

105. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig at ei gilydd ac yn teimlo y byddai'r cynllun tapro yn decach i geiswyr ar ben isaf y raddfa, ond hefyd yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o arian cyhoeddus. Roedd un o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig ond yn gofyn am eglurhad ynglŷn â ble y byddai'r arbedion a wneid yn cael eu gwario. Dywedodd un o'r rhai a oedd yn anghytuno ei bod yn annheg i ragdybio bod incwm uwch na'r trothwy yn golygu bod ceiswyr yn gallu fforddio talu tuag at eu ffi llys a gorfod gwneud cyfraniadau mor uchel â 90% (£9 am bob £10) tuag at ffi. Roedd ymatebydd arall yn credu y gallai'r newid arfaethedig gael effaith arwyddocaol ar allu goroeswyr cam-drin domestig i gael mynediad at gyfiawnder.

**Ymateb y Llywodraeth**

106. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'n cynnig, a fydd yn helpu i sicrhau cynllun cymesur sy'n cael ei dargedu'n well tuag at yr unigolion sydd ei angen fwyaf.

107. Rydym yn cydnabod nad yw'n iawn rhagdybio bod y rhai sydd ag incwm uwch na'r trothwy yn gallu fforddio talu ffi'r llys yn llawn. Mae'r ateb yn amlwg yn dibynnu ar ddau ffactor allweddol: faint uwchben y trothwy incwm yw incwm unigolyn a faint yw ffi'r llys. Dyma'r union reswm dros gynnig cynllun tapro sy'n ystyried y ddau ffactor pwysig hyn. Nid yw'r cynllun tapro yn rhagdybio y gall unigolyn fforddio talu'r ffi lawn dim ond oherwydd ei fod yn disgyn uwchben y trothwy incwm. Yn hytrach mae lefel yr help yn cael ei graddoli – â mwy o help yn cael ei ddarparu i'r rhai sydd ag incwm ychydig yn uwch na'r trothwy, sy'n lleihau mewn camau wrth i'r bwlch rhwng incwm yr

unigolyn a'r trothwy incwm ehangu. Mae cysylltiad uniongyrchol hefyd rhwng lefel y gostyngiad rhannol a swm y ffi.

108. Mae'r sylw y bydd ein cynllun tapro arfaethedig yn golygu y bydd yn ofynnol bob amser i unigolion sydd uwchben y trothwy incwm gyfrannu hyd at 90% o'r ffi (£9 ar gyfer pob £10) yn anghywir. Fel yr eglurwyd yn fanwl yn yr ymgynghoriad, byddai'r cynllun tapro arfaethedig ynghyd â'r cap incwm misol gros diwygiedig yn gweithredu yn debyg i Dreth Incwm. Golyga hyn mai dim ond yr incwm sydd o fewn y band penodol fyddai'n wynebu'r ffi cyfrannu sy'n gymwys. Byddem yn cyfeirio'r ymatebydd at yr enghraifft ymarferol ar dudalennau 41 yn y ddogfen ymgynghori, sy'n dangos sut y byddai'r cynllun tapro yn gweithio.

109. Mewn ymateb i gais ceisydd am eglurhad ynglŷn â ble byddai arbedion yn cael eu gwneud, hoffem nodi (heb gynnwys y costau gweithredu a wynebir gan GLlTEF) nad yw gweithredu ein newidiadau arfaethedig ar gyfer cynllun HwF diwygiedig yn cyfateb i 'gostau' ac 'arbedion' yn y ffordd arferol. Mae'r cynllun HwF yn dileu ffioedd unigolion cymwys. O ganlyniad, mae 'cost' cynllun HwF mwy hael, lle bydd mwy o unigolion yn elwa o ostyngiad llawn neu rannol, mewn gwirionedd yn ostyngiad yn incwm GLlTEF o ran talu ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd, lle mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Ar y llaw arall, nid yw unrhyw 'arbediad' o weithredu'r cynllun tapro arfaethedig yn ddim mwy na derbyn unrhyw incwm ffioedd ychwanegol – er enghraifft lle bydd yn ofynnol i enillwyr uwch sydd ar hyn o bryd yn elwa o gymorth sylweddol wneud cyfraniadau mwy cymesur tuag at eu ffi. Yn fyr, mae'r 'arbediad' o'n cynllun tapro gostyngiadau rhannol arfaethedig wedi ein galluogi i ddatblygu cynigion mwy hael (â 'chostau' cysylltiedig) mewn rhannau eraill o'r cynllun HwF er budd y rhai sydd fwyaf o angen cymorth.

110. Yn olaf, o ran y sylw y gallai ein cynllun tapro arfaethedig gael effaith arwyddocaol ar oroeswyr cam-drin domestig, ni roddodd yr ymatebydd unrhyw eglurhad na thystiolaeth bellach ar y pwynt hwn. Gan gymryd y byddai'r cynllun tapro yn gymwys i bob ceisydd fel ei gilydd, a'i fod yn cael ei hidlo dim ond ar sail lefel incwm ceisydd, nid ydym yn gweld sut y gallai ein cynnig effeithio ar hawl goroeswyr cam-drin domestig i gael mynediad at gyfiawnder. Gweler paragraff 183 sy'n egluro'r broses os oes gan bartner ceisydd fudd i'r gwrthwyneb. Os nad yw unigolyn yn gymwys i gael cymorth drwy'r cynllun HwF a'i fod yn debygol o brofi caledi eithriadol, gall wneud cais am ddileu ffioedd dan bŵer eithriadol yr Arglwydd Ganghellor i ddileu ffioedd.

111. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan ddisodli'r rheol gostyngiad rhannol sefydlog o 50% â'r cynllun tapro tri band.

**Cwestiwn 15: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i leihau'r cap incwm aelwydydd misol gros i £3,000 uwchben y trothwy incwm misol gros?**

112. Cafwyd 10 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 7 o'r ymatebwyr (70%) yn cytuno â'n cynnig ac roedd 3 o'r ymatebwyr (30%) yn anghytuno.

113. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod, lle bynnag y bo modd, y dylid cyfeirio arian cyhoeddus tuag at y rhai a oedd ei angen fwyaf. Roedd un o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn dadlau bod y cap ei hun yn annheg a dywedodd ymatebydd arall y gallai ffioedd uwch o ganlyniad i'r cynnig hwn gael effaith arwyddocaol ar hawl goroeswyr cam-drin domestig i gael mynediad at gyfiawnder.

**Ymateb y Llywodraeth**

114. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig hwn a fydd yn sicrhau bod y cynllun HwF yn parhau i gael ei dargedu tuag at unigolion nad oes ganddynt gymaint o fodd ariannol.

115. Nid ydym yn credu bod yr egwyddor o gap incwm aelwydydd misol gros yn annheg. Pwrpas creiddiol y cynllun HwF yw cynorthwyo unigolion nad oes ganddynt lawer o fodd ariannol. O ganlyniad, mae angen cap er mwyn sicrhau cynllun sydd wedi'i dargedu'n dda fel nad yw'r unigolion sydd â'r angen mwyaf yn disgyn drwy'r bwlch dros gyfnod. Nid ydym yn credu y dylid cyfeirio arian trethdalwyr er mwyn darparu cymorth ariannol mwy neu ddiderfyn i unigolion ar incwm uwch y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt dalu ffi yn rhannol neu yn llawn.

116. O ran y sylw y gallai ein bwriad i leihau'r cap incwm gael effaith arwyddocaol ar oroeswyr cam-drin domestig, ni roddodd yr ymatebydd unrhyw eglurhad na thystiolaeth bellach ar y pwynt hwn. Gan gymryd y byddai'r cap yn gymwys i bob ceisydd fel ei gilydd, a'i fod yn cael ei hidlo dim ond ar sail lefel incwm ceisydd, nid ydym yn gweld sut y gallai ein cynnig effeithio ar hawl goroeswyr cam-drin domestig i gael mynediad at gyfiawnder.

117. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan leihau'r cap incwm aelwydydd misol gros i £3,000 uwchben y trothwy incwm misol gros.

# Pennod 3 – Y prawf cyfalaf

118. Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau 16 i 23 yn yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â chynigion y prawf cyfalaf, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth.

## Diffiniad o gyfalaf gwario

### Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 16: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r diffiniad o gyfalaf gwario i olygu 'cynilion a buddsoddiadau' gyda rhestr anghyflawn o enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys fel y nodir ym mharagraff 119 yn yr ymgynghoriad?**

119. Cafwyd 10 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 6 o'r ymatebwyr (60%) yn cytuno â'n cynnig, roedd 3 o'r ymatebwyr (30%) yn anghytuno, a dywedodd 1 ymatebydd (10%) 'efallai'.

120. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig, gan ddweud ei fod yn helpu i ddal buddsoddiadau nad ydynt ar gael fel asedau hylifol. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn dweud na ddylid cosbi ceiswyr am gael cynilion a buddsoddiadau, yn enwedig os dyma'r unig rwyd diogelwch ar gyfer pensiynwyr neu weithwyr hunangyflogedig. Gwnaethpwyd sylw hefyd bod y rhestr anghyflawn yn rhy amwys ac y dylid cael mwy o eglurder, er enghraifft, y dylid cynnwys cryptoarian.

### Ymateb y Llywodraeth

121. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig hwn, a fydd yn darparu diffiniad clir a syml o gyfalaf.

122. Nid ydym yn cynnig cael rhestr gynhwysfawr o'r mathau o gyfalaf a fydd yn cael eu hystyried fel 'cynilion a buddsoddiadau' gan fod hyn yn creu risg ddiangen na fydd pob math o gyfalaf wedi'i gofnodi, yn enwedig mathau newydd a allai gael eu datblygu dros gyfnod. Yn ychwanegol at hyn, rydym yn cadarnhau bod cryptoarian eisoes yn cael eu cynnwys yn y diffiniad presennol o gyfalaf dan y Gorchmynion Ffioedd, a byddant yn dal i gael eu cynnwys gan y diffiniad arfaethedig. O ganlyniad, nid ydym yn credu bod angen nodi'r math hwn o gyfalaf dros fathau eraill yn y diffiniad. Er hyn, er mwyn cynorthwyo ceiswyr i benderfynu a yw mathau penodol o gyfalaf yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o gyfalaf, byddwn yn adolygu ac yn

diweddaru'r rhestr bresennol sydd yn y canllawiau i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â cheisiadau HwF.

123. O ran y sylw na ddylai ceiswyr gael eu cosbi am gael cynilion a buddsoddiadau, yn enwedig os dyma'r unig rwyd diogelwch ar gyfer pensiynwyr neu weithiwr hunangyflogedig, rydym yn nodi na roddodd yr ymatebydd unrhyw eglurhad na thystiolaeth bellach ar ei bwynt. Os oes gan rywun swm sylweddol o gynilion a buddsoddiadau, mae'n rhesymol disgwyl iddo ddefnyddio'r adnoddau hynny i dalu ei ffi cyn defnyddio arian cyhoeddus. Mae gweithredu trothwy cyfalaf felly'n sicrhau bod y cynllun HwF yn dal i ganolbwyntio ar helpu'r unigolion hynny sydd ag ychydig o gynilion, neu ddim o gwbl, na fyddent yn gallu cael mynediad at y system llysoedd a thribiwnlysoedd oni bai am y cynllun. Yn ychwanegol at hyn, dan ein cynigion, bydd unigolion o oed pensiwn y wladwriaeth yn elwa o drothwy cyfalaf cyffredinol mwy hael o £16,000 beth bynnag yw maint y ffi. Unwaith eto, credwn ei bod yn rhesymol os oes ganddynt gynilion a buddsoddiadau uwchben y trothwy hwn, ei bod yn ofynnol iddynt ddefnyddio'r adnoddau hynny cyn cael cymorth gan y cynllun HwF. Yn olaf, ni roddodd yr ymatebydd unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai trothwy cyfalaf yn rhoi gweithwyr hunangyflogedig dan anfantais. Nid ydym yn credu bod lwfans cyfalaf arall ar gyfer unigolion hunangyflogedig yn angenrheidiol nac yn briodol.

124. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan ddiwygio'r diffiniad o gyfalaf gwario i olygu 'cynilion a buddsoddiadau' gyda rhestr anghyflawn o enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys fel y nodir ym mharagraff 119 o'r ymgynghoriad.

## Y trothwy cyfalaf is

### Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 17:** A ydych yn cytuno â'n cynnig i gynnal yr egwyddor o ddefnyddio gwariant tri mis ar gyfer pennu'r trothwy cyfalaf is, ac yn unol â hynny i godi'r trothwy cyfalaf is i £4,250?

125. Cafwyd 9 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 7 o'r ymatebwyr (78%) yn cytuno â'r cynnig a 2 o'r ymatebwyr (22%) yn anghytuno.

126. Dywedodd un o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'n cynnig ei bod yn ymddangos yn gymesur i gyfeirio adnoddau tuag at y rhai sydd eu hangen fwyaf. Roedd y ddau ymatebydd a oedd yn anghytuno yn mynegi pryder y gallai gwariant amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau unigolyn, ac yn gofyn am eglurhad a fyddai'r trothwy is hwn yn gysylltiedig â chwyddiant neu'n cael ei adolygu o bryd i'w gilydd.

### Ymateb y Llywodraeth

127. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig hwn. Er mwyn egluro'r pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr:

- *Gallai gwariant amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau unigolyn:* Mae hyn yn wir, ond nid yw'n dirymu'r sail resymegol y dylai'r trothwy cyfalaf is fod yn gysylltiedig â'r trothwy incwm misol gros arfaethedig (£1,420) er mwyn bod yn gyson â'r egwyddor gyffredinol y dylai unigolion gael gwariant hanfodol tri mis ar ffurf cyfalaf. Byddem yn nodi, lle mae'n briodol ystyried mathau penodol o incwm neu gyfalaf na ddylid eu hasesu, bod y rhain yn cael eu hystyried gan ystod eang o ddiystyriadau incwm a chyfalaf arfaethedig ac sy'n bodoli'n barod. Yn ogystal, bydd y cap oedran arfaethedig yn ystyried y ffaith fod y rhai sydd wedi cyrraedd oed pensiwn (66 neu drosodd) yn debygol o wynebu anhawster wrth adnewyddu cyfalaf.
- *A fydd y trothwy yn gysylltiedig â chwyddiant neu'n cael ei adolygu o bryd i'w gilydd:* Er mwyn sicrhau ein bod yn dal i ddiogelu mynediad at gyfiawnder, drwy dargedu arian cyhoeddus prin tuag at unigolion heb lawer o fodd ariannol sydd ei angen fwyaf, fel y bydd data LCF newydd yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, byddwn yn adolygu'r arolygon newydd a'r trothwy cyfalaf o bryd i'w gilydd.

128. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan gynnal yr egwyddor o ddefnyddio gwariant tri mis ar gyfer pennu'r trothwy cyfalaf is, ac yn unol â hynny yn cynyddu'r trothwy cyfalaf is i £4,250.

## Y system band trothwy cyfalaf

### Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 18:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddisodli'r system trothwy deg band presennol â strwythur tri band syml fel y nodir ym mharagraff 129 yn yr ymgynghoriad?

129. Cafwyd 9 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 7 o'r ymatebwyr (78%) yn cytuno â'n cynnig, roedd 1 o'r ymatebwyr (11%) yn anghytuno, a dywedodd 1 ymatebydd (11%) 'efallai'.

130. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi ein cynnig yn dweud y bydd y strwythur tri band yn symlach ac yn haws i geiswyr ac i GLlTEF, yn ogystal â bod yn fwy hael. Ni wnaethpwyd sylwadau gan yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno.

### Ymateb y Llywodraeth

131. Rydym yn croesawu'r ymateb cadarnhaol i'r cynnig hwn a byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan ddisodli'r system trothwy deg band presennol â strwythur tri band symlach.

## Y cap oedran

### Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 19: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gynyddu'r terfyn oedran i gyd-fynd â'r oedran pensiwn gwladol presennol o 66?**

132. Cafwyd 10 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 7 o'r ymatebwyr (70%) yn cytuno â'n cynnig a 3 o'r ymatebwyr (30%) yn anghytuno.

133. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig, ac yn nodi ei fod yn gymesur â chynyddu'r cap oedran, a fydd yn sicrhau mwy o gysondeb ag asesiadau awdurdodau lleol. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn dweud y gellid gostwng y cap i 55 a bod llawer o bobl yn ymddeol cyn 66. Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn anghytuno â'n sail resymegol, ond gofynnodd am eglurhad ynglŷn â ble y byddai'r arian a fyddai'n cael ei arbed drwy'r cynnig hwn yn cael ei wario.

### Ymateb y Llywodraeth

134. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gref sydd i'r cynnig hwn, a fydd yn sicrhau cysondeb â'r sail resymegol wreiddiol o gael cap oedran.

135. Nid ydym yn cynnig gostwng y cap oedran gan nad oes tystiolaeth wrthrychol na sail resymegol dros wneud hynny. Rydym yn cydnabod bod pobl hŷn o oedran pensiwn y wladwriaeth neu drosodd at ei gilydd wedi ymddeol, ac o ganlyniad yn cael mwy o anhawster i adnewyddu cyfalaf. Nid yw hyn yn wir mewn cysylltiad ag unigolion nad ydynt wedi cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth eto y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt weithio ac adnewyddu eu cyfalaf. Nid ydym yn credu bod unigolion a allai fod wedi dewis ymddeol yn gynnar yn perthyn i'r un categori fel bod angen eu cynnwys o fewn y cap oedran. Fodd bynnag, os oes ffactorau eraill sy'n cyfyngu ar allu unigolyn i weithio, rydym yn nodi bod y cynllun HwF yn ystyried hyn drwy ddiystyriadau incwm a chyfalaf (er enghraifft budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd a/neu daliadau iawndal perthnasol).

136. Mewn ymateb i'r cais am eglurhad ynglŷn â ble y byddai'r arian a fyddai'n cael ei arbed drwy'r cynnig hwn yn cael ei wario, gweler ein hateb blaenorol ym mharagraff 109 uchod, sy'n gymwys yn yr un modd ynglŷn ag 'arbedion' a 'chostau' mewn cysylltiad â'r cynllun HwF.

137. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan gynyddu'r terfyn oedran i gyd-fynd ag oed pensiwn y wladwriaeth ar hyn o bryd, sef 66.

## Diystyriadau cyfalaf

### Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 20:** Os caiff y diffiniad o gyfalaf gwario ei ddiwygio fel sy'n cael ei gynnig o dan baragraff 120 yn yr ymgynghoriad, a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddiweddaru'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf er mwyn dileu'r eitemau canlynol?

- dodrefn tŷ ac eiddo'r brif annedd neu'r unig annedd a feddiannir gan y parti
- eitemau o ddillad personol
- offer a chyfarpar masnach, gan gynnwys cerbydau a ddefnyddir at ddibenion busnes

138. Atebodd 10 ymatebydd ein cwestiwn. Roedd 7 o'r ymatebwyr (70%) yn cytuno â'n cynnig, roedd 1 ymatebydd (10%) yn anghytuno, a dywedodd 2 ymatebydd (20%) 'efallai'.

139. Dywedodd y rhai a oedd o blaid fod ymarferoldeb y cynnig hwn yn glir, ac y byddai'n haws i geiswyr ddeall a chysoni'r cynllun ag asesiadau awdurdodau lleol. O'r rhai a oedd yn anghytuno ac a wnaeth sylwadau penodol ar y cynnig, roedd yr ymatebwyr yn nodi na ddylai dodrefn tŷ ac eiddo personol ceisydd fod ar y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf. Dywedodd ymatebydd arall hefyd ei bod yn hollbwysig egluro nad yw tynnu'r eitemau hyn o'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf yn golygu eu bod yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o gyfalaf gwario.

### Ymateb y Llywodraeth

140. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig hwn gan y mwyafrif, a fydd yn sicrhau cysondeb â'r diffiniad arfaethedig o gyfalaf fel 'cynilion a buddsoddiadau'.

141. I egluro, nid ydym yn bwriadu dechrau asesu'r eitemau hyn fel cyfalaf drwy eu tynnu o'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf. Yn hytrach, bwriad y newid arfaethedig yw ystyried y ffaith na fydd yr eitemau penodol hyn yn dod dan ein diffiniad arfaethedig o gyfalaf, felly nid oes angen eu diystyru. Credwn y bydd y diffiniad newydd yn symlach, ond byddwn yn sicrhau bod canllawiau cyhoeddus clir i fynd gyda'r cais HwF.

142. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan ddiweddaru'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf er mwyn tynnu'r eitemau hyn oddi arni.

**Cwestiwn 21: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf i gynnwys y rhestr o gynlluniau iawndal o dan baragraff 147 yn yr ymgynghoriad?**

143. Atebodd 10 ymatebydd y cwestiwn hwn. Roedd 8 o'r ymatebwyr (80%) yn cytuno â'n cynnig, roedd 1 ymatebydd (10%) yn anghytuno, a dywedodd 1 ymatebydd (10%) 'efallai'.

144. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno na ddylai taliadau o'r fath byth gael eu hystyried fel cyfalaf ac yn dweud bod y cynnig yn gyson, yn gwbl briodol, â Chymorth Cyfreithiol.

**Ymateb y Llywodraeth**

145. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gan yr ymatebwyr a byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, gan ddiwygio'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf i gynnwys y rhestr o daliadau a chynlluniau iawndal dan baragraff 147 yn yr ymgynghoriad.

**Cwestiwn 22:** A oes taliadau eraill y dylid eu hychwanegu at y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf ochr yn ochr â'r taliadau ychwanegol a gynigir o dan baragraff 147 yn y ddogfen ymgynghori?

146. Atebodd 9 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Atebodd 2 ymatebydd (22%) 'oes', atebodd 3 ymatebydd (33%) 'nac oes', ac atebodd 4 ymatebydd (45%) 'ddim yn gwybod'.

147. O'r ymatebwyr a atebodd 'oes' ac a roddodd sylwadau, dywedodd un ymatebydd y dylid cynnwys rhoddion ariannol untro neu ad hoc gan deulu neu ffrindiau. Dywedodd ymatebydd arall y dylid cynnwys pobl ag anableddau dysgu ac aelodau o'r teulu sydd wedi cael iawndal oherwydd gofal annigonol gan nad ydynt o reidrwydd yn dod o dan y taliadau sy'n cael eu diystyru ar hyn o bryd.

**Ymateb y Llywodraeth**

148. Nid ydym yn bwriadu ychwanegu 'rhoddion ariannol untro neu ad hoc gan deulu neu ffrindiau' at y rhestr o daliadau a ddiystyrir. Mae HwF yn gynllun prawf modd i helpu unigolion heb lawer o fodd ariannol i gael mynediad at gyfiawnder. Er bod rhesymau cyfreithlon dros ddiystyru taliadau a wneir i ddarparu ar gyfer unigolion sydd wedi dioddef rhyw fath o niwed personol, nid yw'r un ystyriaeth yn gymwys i roddion cyfandaliad. Credwn fod rhoddion ariannol untro neu ad hoc yn adnodd ychwanegol y tu hwnt i wariant cyffredin a rhesymol. O ganlyniad, mae'n rhesymol eu cynnwys fel ffactor. Yn ymarferol, os yw'r rhoddion yn symiau bach o arian, nid ydynt yn debygol

o fynd â cheisydd uwchben y trothwy cyfalaf, a thrwy hynny gael llawer o effaith ar ei gymhwysedd ar gyfer dileu ffioedd. Fodd bynnag, lle mae'r rhoddion yn sylweddol (hynny yw, yn y miloedd o bunnoedd) a bod eu hychwanegu at gynilion a buddsoddiadau ceisydd yn mynd â hwy uwchben y trothwy cyfalaf cymwys, credwn ei bod yn rhesymol gofyn i geiswyr o'r fath ddefnyddio eu cyfalaf tuag at y ffi.

149. Mewn ymateb i'r argymhelliad y dylid cynnwys iawndal a gafwyd o ganlyniad i ofal annigonol yn y rhestr, rydym yn nodi y byddai taliadau o'r fath yn dod dan daliadau esgeulustod clinigol sydd eisoes yn cael eu diystyru o'r prawf cyfalaf ac a fydd yn dal i gael eu diystyru ohono. Rydym yn nodi y gallai rhai budd-daliadau gael eu talu i unigolion ag anabledd neu eu teuluoedd. Fodd bynnag, lle bo'n gymwys, mae'r cynllun HwF yn gweithredu 'diystyriadau incwm' sy'n cynnwys nifer o wahanol fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd.

**Cwestiwn 23:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno terfyn amser o 24 mis ar gyfer taliadau iawndal presennol a ddiystyrir dan gynllun HwF ac (os caiff y rhestr o ddiystyriadau cyfalaf ei hymestyn yn unol â'n cynnig uchod) taliadau ychwanegol arfaethedig – yn unol â'r tabl o dan baragraff 153 yn yr ymgynghoriad?

150. Atebodd 10 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd 3 ymatebydd (30%) yn cytuno â'n cynnig, roedd 6 ymatebydd (60%) yn anghytuno, a dywedodd 1 ymatebydd (10%) 'ddim yn gwybod'.

151. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn dadlau na ddylid cyflwyno terfyn amser ar gyfer taliadau iawndal ar y sail bod llawer o'r taliadau wedi'u bwriadu ar gyfer amgylchiadau sy'n newid bywyd a gofal/anghenion gydol oes. Roeddent yn dweud, o ganlyniad, ei bod yn afresymol disgwyl i'r unigolyn sydd wedi'i anafu a'i deulu fod wedi addasu i wariant eu haelwyd cyn pen 24 mis. Roeddent hefyd yn dweud ei bod yn bosibl bod rhesymau dilys pam y byddai ar rywun eisiau cynilo'r taliadau iawndal e.e. i helpu ag anghenion gofal disgwyliedig yn y dyfodol, y dylid eu hannog i wneud.

152. Ymateb y Llywodraeth

153. Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr, yn enwedig gan randdeiliaid â phrofiad personol yn y maes hwn. Rydym wedi adolygu ein cynnig yn dilyn yr ymatebion, ac ar ôl eu dadansoddi'n ofalus, credwn na ddylid cyflwyno terfyn amser.

154. Rydym yn cydnabod nad yw 24 mis yn gyfnod addas bob amser i unigolion addasu eu cyllidebau ar gyfer cynnydd yng ngwariant aelwyd o ganlyniad i niwed personol a ddioddefwyd. O ystyried yr ymatebion, rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd unrhyw gostau sefydlog uniongyrchol neu sylweddol a achosir gan y niwed wedi

dod i ben erbyn y cyfnod hwn. Er ein bod yn nodi bod terfyn amser o 12 mis ar gyfer taliadau anafiadau personol a gymhwysir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau wrth asesu cymhwysedd am Gredyd Cynhwysol a therfyn amser o 24 mis ar gyfer ôl-daliadau cynhaliaeth plant a gynigir gan Adolygiad Prawf Modd Cymorth Cyfreithiol, mae'r cynlluniau hyn yn wahanol i'r cynllun HwF. Rydym hefyd yn cydnabod y byddai cadw'r sefyllfa bresennol a pheidio â chyflwyno terfyn amser yn cadw'r cynllun yn hawdd i'w weithredu i geiswyr ac i GLITEF.

155. Ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno, felly ni fydd y taliadau iawndal hynny a ddiystyrir dan y cynllun HwF yn ddarostyngedig i derfyn amser dan y cynllun diwygiedig.

# Pennod 4 – Y broses ymgeisio

156. Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau 24 a 25 yn yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â chynigion ar gyfer diwygio'r broses ymgeisio, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth.

## Datganiad a Datganiad Gwirionedd

### Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 24:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r datganiad a'r datganiad gwirionedd yn y cais HwF i ganiatáu'n benodol i gyfeillion cyfreitha a chynrychiolwyr cyfreithiol lenwi a llofnodi ar ran yr ymgeiswyr?

157. Cafwyd 11 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 9 ymatebydd (82%) yn cytuno â'r cynnig, roedd 1 ymatebydd (9%) yn anghytuno, a dywedodd 1 ymatebydd (9%) 'efallai'.

158. Roedd yr ymatebwyr yn credu y byddai'r newid arfaethedig yn helpu i alluogi a gwella mynediad at gyfiawnder, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr llys sy'n agored i niwed. Roedd rhai ceisiadau am eglurder ynglŷn â'r cynnig a'i effeithiau, a rhoddir sylw i'r rhain yn ymateb y Llywodraeth isod.

### Ymateb y Llywodraeth

159. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig hwn. I egluro ychydig o gwestiynau a godwyd gan ymatebwyr:

- **Materion ariannol pwy fydd yn cael eu hasesu lle mae rhiant yn gwneud hawliad ar ran ei blentyn neu lle mae'r ceisydd yn ystad person ymadawedig:** Yn unol â chanllawiau HwF clir sydd ar gael ar wefan Gov.uk, rydym yn cadarnhau mai'r manylion ariannol sydd eu hangen yw manylion yr unigolyn sy'n rhan o'r achos cyfreithiol (y ceisydd) ond gall y trydydd parti (rhiant, gweinyddwr neu ysgutor) sy'n gwneud cais ar ran y ceisydd lofnodi'r cais.

- **A all gofalwyr teulu â dirprwyaeth neu atwrneiaeth lofnodi'r cais HwF:** Rydym yn nodi, dan Ran 21 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil, os nad oes gan unigolyn alluedd meddyliol (a ddiffinnir fel 'parti gwarchodedig'), ni all fod yn rhan o achos llys heb benodi cyfaill cyfreitha. O ganlyniad, gall cyfaill cyfreitha a benodir i gynorthwyo parti gwarchodedig lofnodi'r cais HwF (a bydd yn dal i allu

gwneud hynny). Unwaith eto, rydym yn cyfeirio at ganllawiau HwF clir sydd ar gael ar wefan Gov.uk sy'n nodi'r sefyllfa hon.

160. Yn dilyn cefnogaeth gan ymatebwyr, byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno. Bydd y newid arfaethedig yn helpu i wella ansawdd cyffredinol ceisiadau, yn gwneud y broses yn haws i geiswyr, ac yn cysoni'r cais HwF â ffurflenni llysoedd a thribiwnlysoedd eraill y gellir eu llofnodi eisoes gan gyfeillion cyfreitha a chynrychiolwyr cyfreithiol.

## Cwblhau ceisiadau

### Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 25:** A ydych yn cytuno â'n cynnig i ychwanegu darpariaeth yn y Gorchmynion Ffioedd i nodi pan fydd cais i ddileu ffi yn anghyflawn, neu pan fydd angen gwybodaeth ychwanegol, rhaid darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani o fewn y cyfnod a hysbysir yn ysgrifenedig i'r ceisydd? Os na ddarperir y wybodaeth y gofynnir amdani, bydd y cais yn cael ei drin fel cais sy'n cael ei adael.

161. Cafwyd 12 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 7 ymatebydd (58%) yn cytuno â'n cynnig, roedd 3 ymatebydd (25%) yn anghytuno, a dywedodd 2 (17%) 'efallai'.

162. Dywedodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno, a/neu a wnaeth sylwadau penodol ar y cynnig, y dylai'r cyfnod fod yn rhesymol, ac y dylid cael negeseuon atgoffa a hyblygrwydd i roi estyniad mewn amgylchiadau arbennig. Yn ogystal, roedd rhai ceisiadau am eglurder ynglŷn â'r cynnig a'i effeithiau, a rhoddir sylw i'r rhain yn ymateb y Llywodraeth isod.

### Ymateb y Llywodraeth

163. Rydym yn croesawu cefnogaeth yr ymatebwyr i'n cynnig. Rydym yn cydnabod ac yn cytuno â'r ymatebwyr y dylai'r terfyn amser fod yn rhesymol. O ganlyniad, rydym yn gweithio gyda GLlTEF er mwyn cytuno ar amserlen sy'n briodol ac yn rhesymol, sy'n cydnabod barn yr ymatebwyr yn ogystal â rhoi sylw i ystyriaethau gweithredol. Nid ydym yn credu bod cyflwyno negeseuon atgoffa yn angenrheidiol nac yn gymesur gan y byddant yn cynyddu costau a chymhlethdod prosesu ceisiadau i staff GLlTEF. Rydym hefyd yn nodi bod digon o eglurder ynglŷn â beth sy'n ofynnol i alluogi ceiswyr i wneud cais HwF, ac o ganlyniad, dylai gwybodaeth y gofynnir amdani gan GLlTEF er mwyn prosesu ceisiadau fod ar gael yn rhwydd i'r ceisydd (neu dylai allu cael gafael arni'n rhwydd). Er hyn, rydym yn cytuno â'r ymatebwyr bod rhaid cael hyblygrwydd priodol ar gyfer amgylchiadau arbennig er mwyn sicrhau nad yw ceiswyr yn cael eu cosbi â rhesymau dilys dros fethu â bodloni'r amserlen safonol. O

ganlyniad, byddwn yn sicrhau bod disgresiwn i adnabod amgylchiadau arbennig drwy eithriad ac yn darparu canllawiau cyhoeddus ar hyn.

164. I egluro ychydig o gwestiynau a godwyd gan yr ymatebwyr:

- **A fydd y terfyn amser yn cael ei ragnodi yn hytrach na bod yn agored i amrywiadau lleol:** Er mwyn bod yn glir ac yn syml, bydd y terfyn amser arfaethedig safonol yn gymwys ar gyfer pob cais HwF.

- **A fydd yn glir os cymerir bod cais wedi'i adael, na ellir gwneud cais arall ar gyfer y ffi honno nes bydd yn dod o fewn y raddfa amser a ganiateir o dri mis o ddyddiad talu'r ffi:** Yn unol â'r arfer presennol lle mae ceisiadau'n cael eu gadael, bydd GLlTEF yn ysgrifennu at geiswyr i'w hysbysu ynglŷn â'r canlyniad hwn a dweud wrthynt y gallant ailymgeisio os bydd eu cais yn parhau o fewn y raddfa amser o dri mis (h.y. tri mis o ddyddiad talu'r ffi berthnasol).

- **Os caiff ffi cychwyn ei diwygio yn dilyn hyn, a fyddai cais HwF ar gyfer y ffi ddiwygiedig yn dal yn gymwys i'r ffi wreiddiol:** Mewn senario o'r fath, bydd GLlTEF yn gofyn am gais HwF newydd a fydd yn cael ei asesu yn erbyn gwerth newydd y ffi. Os bydd yn ofynnol i geisydd dalu tuag at y ffi ddiwygiedig, caiff unrhyw swm a dalwyd yn barod tuag at y ffi wreiddiol ei dynnu a dim ond y gweddill sydd ar ôl fydd yn daladwy.

165. Yn sgil hyn, byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno er mwyn creu proses dryloyw, glir ac effeithiol ar gyfer ceiswyr ac ar gyfer GLlTEF.

# Pennod 5 – Gweithredu

166. Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 26 yn yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â chynigion y darpariaethau trosiannol, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth.

## Darpariaethau trosiannol

### Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 26:** Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i asesu ceiswyr yn ystod y cyfnod pontio fel y nodir yn y senarios uchod?

167. Cafwyd 10 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 8 o'r ymatebwyr (80%) yn cytuno â'r cynnig, roedd 1 ymatebydd (10%) yn anghytuno, a dywedodd 1 ymatebydd (10%) 'efallai'.

168. Ni chafwyd sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

### Ymateb y Llywodraeth

169. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno.

# Pennod 6 – Materion amrywiol sydd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn

170. Yn ogystal â'r ymatebion uchod i'r ymgynghoriad, cawsom nifer o ymatebion cyffredinol ar y cynllun HwF nad oeddent yn gysylltiedig â'r cynigion i ddiwygio HwF, ac sydd felly y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad. O ganlyniad, rydym wedi gwahanu'r ymatebion hyn oddi wrth y penodau blaenorol, ac er mwyn bod yn gyflawn rydym yn rhoi sylw byr iddynt dan y bennod hon.

## Ffioedd llys

171. Dywedodd un ymatebydd ei fod yn derbyn na ddylai llysoedd a thribiwnlysoedd gael eu hariannu'n gyfan gwbl gan y trethdalwr, ond bod ffioedd llys yn rhy uchel ac nad unigolion ar incwm isel yw'r unig rai sy'n cael eu hamddifadu o fynediad at gyfiawnder.

172. Mae ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd yn ofynnol er mwyn cyfrannu tuag at y gwaith o ariannu GLITEF, sy'n weithredol gyfrifol am weinyddu'r holl ffioedd. Pennir yr holl ffioedd yn unol ag egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus, â'r bwriad o adennill cyfraniad tuag at gostau darparu gwasanaethau GLITEF gan ddefnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd lle bo modd, â gweddill y cyllid sy'n ofynnol yn cael ei dalu gan yr adran, ac yn y pen draw gan y trethdalwr. Mae cyfran helaeth o'r ffioedd wedi'u seilio ar gost y gwasanaeth neu'n is. Mae rhai ffioedd wedi'u gosod yn uwch na chost y gwasanaeth, a disgrifir y rhain fel costau 'uwch'. Ni ellir gwneud ffioedd yn uwch heb gymeradwyaeth seneddol benodol dan offeryn statudol cadarnhaol. Defnyddir ffioedd uwch i sybsideiddio meysydd lle nad yw costau'n cael eu hadennill yn llawn fel arfer er mwyn lleihau'r gost i'r trethdalwr. Lle nad yw unigolyn yn gymwys i gael cymorth drwy'r cynllun HwF a lle mae'n debygol o brofi caledi eithriadol, gall wneud cais i gael gostwng ffioedd dan bwerau eithriadol yr Arglwydd Ganghellor i ddileu ffioedd. O ganlyniad, nid ydym yn cytuno â'r ymatebydd bod ffioedd llys yn cael eu gosod mewn ffordd ac ar lefelau sy'n amddifadu unigolion rhag cael mynediad at gyfiawnder.

173. Roedd ymateb arall yn nodi bod rhaid gwneud cais ar gyfer pob ffi llys sy'n daladwy, dan y cynllun HwF presennol, ac yn gofyn a ellid rhoi systemau ar waith i ystyried bod sefyllfa ariannol ceisydd yn sefydlog am gyfnod penodedig er mwyn osgoi gorfod gwneud mwy nag un cais.

174. Mae'r cynllun HwF yn fwriadol yn gynllun syml sy'n darparu gostyngiad ar gyfer ffioedd untro llys neu dribiwnlys. Mae hyn yn ystyried y ffaith fod ceisiadau HwF yn

gallu bod yn gysylltiedig â hawliau amrywiol iawn a cheisiadau am ystod eang o ffioedd ar draws y sbectrwm awdurdodaethau llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n codi ffi yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, y dull gweithredu presennol (lle gofynnir am gais ar wahân ar gyfer pob ffi) yw'r dull mwyaf syml, effeithiol a chymesur ar gyfer ceiswyr a GLITEF. Ni fyddai rhagdybiad o fodd ceisydd wedi'i amcangyfrif dros gyfnod penodedig yn gydnaws â'r cynllun HwF sy'n asesu amgylchiadau ariannol ceisydd ar adeg gwneud cais am ddileu ffioedd.

## Porth Hawliadau Iawndal

175. Dywedodd ychydig o ymatebwyr nad yw'r broses HwF ddigidol yn hygyrch ar y Porth Hawliadau Iawndal.

176. Er nad yw'r broses HwF wedi'i hymgorffori yn y Porth Hawliadau Iawndal, gall unigolion wneud cais ôl-weithredol gan ddefnyddio'r ffurflenni a'r prosesau presennol sy'n berthnasol i hawliadau papur, sy'n dal yn ddull gwaddol cadarn ac wedi ei brofi. Fodd bynnag, mae GLITEF yn ymwybodol o'r materion a godwyd a bydd yn dal i ystyried opsiynau er mwyn caniatáu'r gallu hwn yn y dyfodol.

## Cyfraith teulu a'r llysoedd

177. Cyflwynodd ychydig o'r ymatebwyr sylwadau ar gyfraith teulu a'r llysoedd teulu, gan gynnwys pryderon ynglŷn â chynnydd posibl i ffioedd llys mewn achosion cyfraith teulu, a rôl y cynllun HwF i ddiogelu mynediad at gyfiawnder.

178. Rydym yn cydnabod bod angen sicrhau cynllun HwF cadarn sy'n diogelu mynediad at gyfiawnder i unigolion agored i niwed ar incwm isel heb lawer o gynilion, os o gwbl. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae hyn yn un o'n tri phrif amcan wrth adolygu'r cynllun HwF ac mae'n sail i'n pecyn o gynigion diwygio ar gyfer darparu system fwy hael. O ran sylwadau yn ymwneud â chyfraith teulu, nid ydynt yn rhan o gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Fel y nodwyd yn eu hymatebion, rydym yn gobeithio bod yr ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn mewn ymateb i ymgynghoriad perthnasol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 'Cefnogi penderfynu cynharach ar drefniadau cyfraith teulu breifat', a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2023.

## Yswiriant cyfreithiol

179. Roedd un ymateb yn dweud nad oedd yr ymgynghoriad yn nodi sut y gallai'r cynigion effeithio ar yswirwyr, hynny yw a oes angen i geiswyr amlinellu yswiriant cyfreithiol presennol neu fathau eraill o gynrychiolaeth gyfreithiol yn eu cais HwF. Rydym yn cadarnhau nad oedd hyn yn cael ei gynnig yn yr ymgynghoriad. Mae'r cynigion

presennol wedi'u cyfyngu i ganiatáu i gynrychiolwyr cyfreithiol a chyfeillion cyfreitha gwblhau ceisiadau ar ran ceiswyr a llofnodi'r datganiad gwirionedd (cwestiwn 24 yn yr ymgynghoriad).

180. Roedd cais ar wahân i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried a ddylai'r cynllun HwF fod ar gael lle mae parti sy'n talu yn aflwyddiannus, er enghraifft cwmni yswiriant mewn ymgyfreitha anaf personol. Er nad yw'r mater hwn yn dod o fewn cwmpas yr ymgynghoriad presennol, rydym yn cydnabod y mater a byddwn yn ystyried a oes angen rhoi sylw iddo yn y dyfodol, ac os hynny, sut y gellir gwneud hyn.

181. Yn olaf, dywedodd un o'r ymatebwyr bod achos wedi bod lle'r oedd cwmni yswiriant wedi talu ffi'r llys pan ddylai'r parti yn yr achos yn hytrach fod wedi cael gostyngiad yn y ffi, a bod hynny wedi arwain at ddadleuon maith ynglŷn â chostau. Rydym yn nodi bod hwn yn fater sy'n ymwneud â chostau yn hytrach nag un sy'n cael ei ddatrys drwy'r cynllun HwF. Mae'r meini prawf cymhwystra ar gyfer cymhwyso a derbyn gostyngiad mewn ffioedd drwy'r cynllun HwF yn glir. Pan fydd GLITEF yn cael cais HwF, bydd yn cael ei brosesu'n briodol a (gan ddibynnu ar amgylchiadau ariannol y ceisydd) caniateir neu wrthodir gostyngiad yn ffioedd y ceisydd. Lle nad yw cais am ddileu ffioedd yn cael ei wneud gan unigolyn a fyddai wedi bod yn gymwys pe bai wedi gwneud cais, ni all GLITEF gymryd unrhyw gamau oni bai fod cais ôl-weithredol yn cael ei wneud cyn pen tri mis ar ôl talu'r ffi

## Goroeswyr cam-drin domestig

182. Dywedodd un o'r ymatebwyr fod cyfran sylweddol o'r menywod sy'n gwneud cais am ysgariad yn debygol o fod yn oroeswyr cam-drin domestig a'u bod yn wynebu ffioedd cyfreithiol uchel. O ganlyniad, roedd yn argymell y dylai goroeswyr trais domestig fod yn gymwys yn awtomatig am ostyngiad llawn yn y ffioedd, y dylid hepgor cymhwystra yn seiliedig ar incwm a chyfalaf ar y cyd, ac y dylid cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun HwF.

183. Pwrpas y cynllun HwF yw cynorthwyo pob unigolyn agored i niwed heb lawer o fodd ariannol, gan gynnwys goroeswyr trais domestig a allai fod yn cael anhawster i fforddio eu ffioedd yn rhesymol. Fel cynllun prawf modd, rhaid i'r penderfyniad ynglŷn â chymhwysedd ar gyfer dileu ffioedd fod yn seiliedig ar fodd ariannol unigolyn. O ganlyniad nid ydym yn cynnig gwyro oddi wrth ganolbwynt a swyddogaeth greiddiol y cynllun HwF. Rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl bod goroeswyr cam-drin domestig ar incwm isel heb lawer o gynilion, os o gwbl, ac yn yr achosion hynny bydd y cynllun HwF ar gael i'w cynorthwyo. Os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer cymorth dan y cynllun HwF, gallant wneud cais dan bŵer eithriadol yr Arglwydd Ganghellor i ddileu ffioedd.

184. O ran hepgor gofynion incwm a chyfalaf ar y cyd, rydym yn cadarnhau bod darpariaethau HwF yn bodoli'n barod sy'n rhoi sylw i hyn. Os oes gan bartner ceisydd ddiddordeb i'r gwrthwyneb yn y mater y mae'r ffi'n ymwneud ag ef, ni fydd cyfalaf ac incwm y partner yn cael ei drin fel cyfalaf ac incwm y ceisydd. Mae hyn yn amlwg yn ymwneud ag achosion ysgariad, ynghyd â mathau eraill o hawliadau a cheisiadau.

185. Byddwn yn sicrhau bod canllawiau HwF clir ar gael i'r cyhoedd o hyd pan gaiff y cynllun ei ddiweddaru a byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun diwygiedig.

# Casgliad a'r camau nesaf

186. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd i ddiogelu mynediad at gyfiawnder ac elfen allweddol o'r ddyletswydd honno yw sicrhau nad yw pobl yn cael eu hatal rhag troi at ein llysoedd neu'n tribiwnlysoedd am gymorth dim ond oherwydd eu bod yn methu â fforddio talu'r ffi yn rhesymol. Rhaid i bob unigolyn, beth bynnag ei amgylchiadau ariannol, allu cael mynediad at y llysoedd a'r tribiwnlysoedd pan fydd mewn angen.

187. Bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen yn unol â'i chynlluniau i ddiwygio'r cynllun HwF fel y nodwyd yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad. Bydd hyn yn sicrhau cynllun mwy hael sy'n targedu cymorth ariannol tuag at y rhai sydd ei angen fwyaf ar yr un pryd â darparu gwerth am arian y trethdalwyr.

188. Bydd y cynigion yn cael eu rhoi ar waith drwy offeryn statudol negyddol yn hydref 2023.

189. Bydd y newidiadau'n cynnwys diwygiadau i ffioedd yn y Gorchmynion Ffioedd a ganlyn:

- Gorchymyn Ffioedd Profiant Digynnen 2004
- Gorchymyn Cydnabod Rhywedd (Ffioedd am Geisiadau) 2006
- Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod 2007
- Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008
- Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008
- Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008
- Gorchymyn Ffioedd y Goruchaf Lys 2009
- Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) 2009
- Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Gamblo) 2010
- Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches) 2011
- Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Mewnfudo a Lloches) (Adolygiad Barnwrol) (Cymru a Lloegr) 2011
- Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Eiddo) 2013

# Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

## Asesiad Effaith

190. Mae Asesiad Effaith wedi'i ddiweddaru wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

## Cydraddoldeb

191. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i'r Llywodraeth, fel rhan o ddatblygu polisi, ystyried effaith ein cynnig ar gydraddoldeb. Yn gryno, rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd cydraddoldeb roi sylw i'r canlynol wrth arfer eu swyddogaethau:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf;
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.

192. At ddibenion yr asesiad cydraddoldeb, y nodweddion gwarchodedig perthnasol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yw: hil; rhyw; anabledd; cyfeiriadedd rhywiol; crefydd a chred; oed; priodas a phartneriaeth sifil; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth.

193. Mae Datganiad Cydraddoldeb wedi'i ddiweddaru wedi cael ei baratoi a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

## Yr Iaith Gymraeg

194. Byddai'r cynigion hyn, pe baent yn cael eu gweithredu, hefyd yn effeithio ar y rhai sy'n siarad Cymraeg.

195. Mae fersiwn Cymraeg o'r ddogfen hon wedi'i pharatoi. Darperir copi Cymraeg o'r Asesiad Effaith a'r Datganiad Cydraddoldeb wedi'i ddiweddaru ar gais.

# Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr

Canolfan Hawliadau am Arian y Llysoedd Sirol

Cyngor y Bar

Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol

Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr

Cymdeithas Cyfreithwyr yr Alban

Cymdeithas Defnyddwyr Llysoedd Sifil

Cymdeithas Sefydliadau Cefnogi Defnyddwyr

Cymdeithas Ymarferwyr Cyfraith Tai

Families Need Fathers/Both Parents Matter

Gwasanaeth Tystion Cyngor ar Bopeth

Y Gwir Anrhydeddus Syr Keith Lindblom (Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd)

Refuge

Resolution

Shelter

The Challenging Behaviour Foundation

Unigolion (3)

# Atodiad B: Rhestr derfynol o'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Help i Dalu Ffioedd

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys y rhestr derfynol o'r newidiadau arfaethedig i'r cynllun HwF y byddwn yn bwrw ymlaen ag ef yn dilyn yr ymgynghoriad.

## Cynigion prawf incwm

1. **Trothwyon incwm:** Yn seiliedig ar 5ed degradd incwm LCF y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2019/20 a chyfwerthedd yr OECD, byddwn yn bwrw ymlaen i bennu'r trothwyon incwm fel a ganlyn:

| **Trothwyon incwm misol gros arfaethedig** | |
|---|---|
| Trothwy unigol ar gyfer ceisydd sengl | £1,420 |
| Premiwm Cwpl | £710 |
| Premiwm Plentyn (14+ oed) | £710 |
| Premiwm Plentyn (0-13 oed) | £425 |

2. **Diystyriadau incwm:** Byddwn yn bwrw ymlaen â'r rhestr a ganlyn o ddiystyriadau incwm:

| | |
|---|---|
| Lwfans Gweini | Taliadau o'r Gronfa Byw'n Annibynnol |
| Lwfans Anabledd Difrifol | Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog |
| Lwfans Gofalwr | Iawndal a delir dan Orchymyn Pensiwn Gwasanaeth y Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr 2006 |
| Lwfans Byw i'r Anabl | Taliad Annibyniaeth Personol |
| Lwfans Gweini Cyson | Taliadau a wneir i gefnogi pobl y mae angen gofal cymdeithasol arnynt |
| Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol | Taliadau a wneir o'r Gronfa Gymdeithasol |
| Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol | Cymorth ariannol o dan gytundeb ar gyfer gofal maeth plentyn |

| | |
|---|---|
| Elfennau anabledd ac anabledd difrifol o Gredyd Treth Plant | Taliadau ymlaen llaw a wneir ar gyfrif o dan y Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau gwaddol eraill |
| Taliad Cymorth Profedigaeth | Budd-dal Tai |
| Elfen tai y Credyd Pensiwn | Elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith |
| Elfennau anabledd ac anabledd difrifol o Gredyd Treth Gwaith | |

3. **Budd-daliadau pasbortio:** Byddwn yn bwrw ymlaen i gynnal y rhestr bresennol o fudd-daliadau prawf modd ar gyfer pasbortio ceiswyr drwy'r prawf incwm, sef:

- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Pensiwn (Credyd Gwarant)
- Credyd Cynhwysol ag enillion ychwanegol o lai na £6,000 (gros blynyddol)

4. **Diffiniad o 'incwm misol gros':** Byddwn yn bwrw ymlaen i ddiwygio'r diffiniad i:
   - Gyd-fynd â chymorth cyfreithiol sifil fel a ganlyn: y swm gros y mae'r unigolyn wedi'i ennill ac unrhyw symiau gros eraill o unrhyw ffynhonnell y mae'r unigolyn wedi'u cael.
   - Rhoi dewis i geiswyr rhwng defnyddio incwm misol neu gyfartaledd incwm tri mis ar gyfer y prawf incwm.
   - Peidio â chynnwys tyniadau fel incwm mwyach.

## Cynigion dileu ffioedd yn rhannol

5. Byddwn yn bwrw ymlaen i ddisodli'r polisi dileu ffioedd yn rhannol sy'n bodoli ar hyn o bryd â chynllun tapro tri band â chap incwm misol gros o £3,000 uwchben y trothwy incwm misol gros. Bydd y cynllun tapro tri band fel a ganlyn:

| Band | Lefel incwm misol gros | % yn daladwy tuag at ffi llys neu dribiwnlys |
|---|---|---|
| 1 | Hyd at £1,000 uwchben y trothwy | 50% |
| 2 | £1,001 - £2,000 uwchben y trothwy | 70% |
| 3 | £2,001 - £3,000 uwchben y trothwy | 90% |

## Cynigion prawf cyfalaf

6. **Diffiniad o gyfalaf gwario:** Byddwn yn bwrw ymlaen i ddiwygio'r diffiniad i – gynilion a buddsoddiadau gan gynnwys, heb fod yn gyfyngedig i fondiau; cyfandaliadau; stociau a chyfrandaliadau; gwerth ail gartrefi; arian neu eiddo y tu allan i'r DU.

7. **Y trothwy cyfalaf is:** Byddwn yn bwrw ymlaen i gynnal yr egwyddor o ddefnyddio gwariant tri mis ar gyfer pennu'r trothwy cyfalaf is, ac yn unol â hynny i'w godi i £4,250.

8. **Y system band trothwy cyfalaf:** Byddwn yn bwrw ymlaen i ddisodli'r system deg band bresennol â strwythur syml tri band fel a ganlyn:

| Gwerth ffi'r llys neu'r tribiwnlys | Trothwy cyfalaf |
|---|---|
| Hyd at £1,420 | £4,250 |
| £1,421 - £5,000 | 3x y ffi a godir |
| £5,001 neu drosodd | £16,000 |

9. **Y cap oedran:** Byddwn yn bwrw ymlaen i gynyddu'r cap oedran i fod yn gyson â'r oedran pensiwn gwladol presennol o 66.

10. **Diystyriadau cyfalaf:** Byddwn yn diwygio'r rhestr o ddiystyriadau cyfalaf fel a ganlyn:
    - **Tynnu'r eitemau a ganlyn oddi ar y rhestr:** dodrefn tŷ ac eiddo'r brif annedd neu'r unig annedd a feddiannir gan y parti; eitemau o ddillad personol; ac offer a chyfarpar masnach, gan gynnwys cerbydau a ddefnyddir at ddibenion busnes.
    - **Ychwanegu'r eitemau a ganlyn at y rhestr:**
        - Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog
        - Taliadau iawndal yn ymwneud â thân Tŵr Grenfell
        - Taliadau iawndal yn ymwneud â Windrush
        - Cynllun Gwneud Iawn ynghylch Cartrefi Plant Lambeth
        - Taliadau Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain
        - Cynllun Setlo Cam-drin Corfforol Canolfan Gadw Medomsley
        - Cynllun Iawndal Camweinyddu Cyfiawnder
        - Taliadau Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol
        - Taliadau o'r Cynlluniau Cymorth Gwaed Heintus
        - Taliadau yn ymwneud â chladdedigaeth, llafur gorfodol, anaf neu golli plentyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd
        - Cynllun Gwneud Iawn Cymrodoriaeth Iesu
        - Iawndal Taliad Niwed trwy Frechiad
        - Cynllun iawndal sy'n gysylltiedig â Chlefyd Amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob

- Cynllun Iawndal Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor
- Taliadau Cronfa Argyfwng We Love Manchester

## Cynigion y broses ymgeisio

11. **Datganiad a datganiad gwirionedd:** Byddwn yn bwrw ymlaen i ddiwygio'r datganiad a'r datganiad gwirionedd yn y cais HwF i ganiatáu i gyfeillion cyfreitha a chynrychiolwyr cyfreithiol lenwi a llofnodi ar ran y ceisydd.

12. **Cwblhau ceisiadau:** Byddwn yn bwrw ymlaen i ychwanegu darpariaeth yn y Gorchmynion Ffioedd i nodi pan fydd cais i ddileu ffioedd yn anghyflawn, neu pan fydd angen gwybodaeth ychwanegol, bod rhaid darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani o fewn y cyfnod a hysbysir yn ysgrifenedig i'r ceisydd. Os na ddarperir y wybodaeth y gofynnir amdani, bydd y cais yn cael ei drin fel cais sy'n cael ei adael.

## Darpariaethau trosiannol

13. Byddwn yn bwrw ymlaen i asesu ceiswyr drwy'r cyfnod pontio fel a ganlyn:
    - Senario 1: Lle cyflwynwyd cais HwF cyn i'r cynllun diwygiedig ddod i rym ond nad yw wedi cael ei brosesu eto gan GLlTEF. Yn yr achos hwn, bydd y cais yn cael ei asesu yn unol â'r rheolau sydd mewn grym adeg cyflwyno'r cais.
    - Senario 2: Talodd ceisydd ffi'r llys neu'r tribiwnlys ar ddyddiad cyn i'r cynllun HwF diwygiedig ddod i rym ond mae'n gwneud cais ôl-weithredol ar ôl i'r cynllun HwF ddod i rym. Bydd y cais am ad-daliad, ar sail cyfalaf ac incwm y ceisydd ar yr adeg y talodd y ffi, yn cael ei asesu yn unol â rheolau'r hen gynllun HwF.

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/revising-the-help-with-fees-remission-scheme/supporting_documents/revisinghelpfeesconsultation.pdf

Mae fersiynau o’r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i Bolisi Ffioedd, y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn: mojfeespolicy@justice.gov.uk